Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru Cyllideb Ddrafft 2023-24

## Cyllideb mewn Cyfnod Anodd

**Rhagfyr 2022**

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45897, ISBN digidol 978-1-80364-751-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Tabl Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ii

Pennod 1: Y Cyd-destun Strategol 4

Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd 4

Pennod 3: Trafniadau cyllido 7

Pennod 4: Buddsoddi ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru 16

Pennod 5: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru 23

Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol 25

Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am gynlluniau Cyllid Arloesol 39

Atodiad C: Cynllun Gwella'r Gyllideb 41

Atodiad D: Costau gweithredu deddfwriaeth 42

Atodiad E: Rhestr o dermau ariannol 47

## Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dyma Gyllideb Ddrafft wahanol i unrhyw gyllideb arall ers datganoli. Mae'n un o'r rhai anoddaf yr ydym erioed wedi'i gwneud ac mae'n adlewyrchu'r storm berffaith o bwysau economaidd a chyllidebol sy'n wynebu Cymru – pwysau na chafodd eu creu gennym ni.

Gyda'n gilydd, rydym wedi dioddef dros ddegawd o fesurau cyni a gafodd eu gosod gan Lywodraethau olynol yn San Steffan. Dewis gwleidyddol oedd hyn gan Gangellorion y Deyrnas Unedig, gan adael ein gwlad yn dlotach; ehangu'r bylchau mewn anghydraddoldeb ac arwain at leihad mewn cynhyrchiant.

Yn ystod y degawd coll hwn llwyddom i warchod ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi rhag effeithiau gwaethaf y mesurau cyni, ond prin iawn oedd y cyllid i gefnogi eu twf.

Byddai cyni ar ei ben ei hun wedi bod yn ddigon i leihau gallu ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi i wrthsefyll ysgytiadau pellach.

Ond ar ben hynny, yn syth ar ôl ei gilydd, daeth Brexit; pandemig y coronafeirws; canlyniadau economaidd a dyngarol y rhyfel yn Wcráin a nawr argyfwng costau byw digynsail, sy'n effeithio ar bob rhan o fywyd bob dydd a byd busnes, gan fygwth ein hadferiad o'r pandemig. Ynghyd â'r rhain oll, cafwyd mini-gyllideb drychinebus ym mis Medi.

Mae'r DU mewn dirwasgiad; mae chwyddiant ar ei lefel uchaf ers 40 mlynedd ac mae prisiau ynni'n eithriadol o uchel wrth i safonau byw ostwng.

Nid yw ein setliad ariannu, a ddaw'n bennaf gan Lywodraeth y DU, yn ddigonol i ddygymod â'r holl bwysau eithriadol sy'n wynebu Cymru, heb sôn am gyflawni ein blaenoriaethau yn 2023-24.

Rydym wedi wynebu dewisiadau anodd iawn yn ystod proses y gyllideb hon. Gan gael ein harwain gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi ceisio cadw cydbwysedd rhwng cefnogi anghenion pobl y mae'r argyfwng costau byw presennol yn effeithio arnynt a chynaliadwyedd mwy hirdymor gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon hefyd yn ceisio diogelu ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol ac, ar yr un pryd, diogelu'r economi rhag dirwasgiad.

Fel rhan o broses y gyllideb, rydym wedi ailflaenoriaethu cyllid o'n cynlluniau presennol a'i symud i feysydd lle y gall gael yr effaith fwyaf.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr yn y Cabinet am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod y broses hon a hoffwn ddiolch hefyd i Siân Gwenllian, yr Aelod Dynodedig ar gyfer y Cytundeb Cydweithio, am yr ymgysylltu parhaus a'r berthynas weithio agos.

Mae hon yn Gyllideb Ddrafft a wnaed mewn cyfnod anodd ar gyfer cyfnod anodd. Mae'n adlewyrchu cyfyngiadau ein setliad ariannu, ond nid diffyg uchelgais gennym ni.

Mae'n cynnal ein hymrwymiad i flaenoriaethu'r bobl fwyaf agored i niwed – a gwasanaethau cyhoeddus – tra'n parhau i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach i bawb.

# Pennod 1: Y Cyd-destun Strategol

## Trosolwg

1.01 Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi ein cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf cyffredinol wedi'u diweddaru ar gyfer 2023-24, gan ddiweddaru'r cynlluniau dangosol a amlinellwyd gennym yn rhan o Gyllideb 2022-23, ynghyd â dyraniadau arfaethedig diwygiedig ar gyfer 2024-25.

1.02 Datblygwyd Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn erbyn cefndir ariannol eithriadol o heriol. Mae economi y DU mewn dirwasgiad, mae chwyddiant ar ei uchaf ers 40 mlynedd, ac mae aelwydydd a busnesau yn wynebu'r prisiau ynni uchaf erioed a gostyngiad mewn incwm. Mae Canghellor y DU wedi rhybuddio y bydd toriadau sylweddol yn cael eu gwneud i wariant cyhoeddus mewn ymgais i liniaru'r difrod a achoswyd i gyllid cyhoeddus, yn rhannol, oherwydd mini-gyllideb y DU ym mis Medi.

1.03 Mae Cymru yn wynebu cyfuniad o bwysau cyllidol a phwysau cyllidebol. I gefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac economi Cymru yn ystod y cyfnod heriol hwn, rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr ac wedi ailflaenoriaethu amlenni gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol, a amlinellwyd yn rhan o broses Cyllideb 2022-23. Rydym wedi gwneud penderfyniadau anodd i ryddhau cyllid o gynlluniau sydd eisoes yn bodoli, gan ailbennu ffocws ein hadnoddau cyfyngedig i roi sylw i'r meysydd â'r angen mwyaf.

1.04 Bydd hyn yn sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Nod ein dull gweithredu yw gwneud y gorau o effaith yr adnoddau sydd ar gael inni. Bydd hyn yn cydbwyso'r anghenion byrdymor cysylltiedig â'r argyfwng costau byw cyfredol, gan hefyd geisio parhau i sbarduno newid mwy hirdymor a chyflawni uchelgeisiau ein Rhaglen Lywodraethu.

1.05 Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn canolbwyntio ar dair conglfaen fuddsoddi allweddol: diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol; parhau i ddarparu cymorth i'r rhai y mae'r argyfyngau a wynebwn yn effeithio arnynt fwyaf, a chefnogi ein heconomi drwy gyfnod dirwasgiad.

1.06 Cynhaliwyd adolygiad sylfaen sero o gyllidebau cyfalaf cyffredinol yn Adolygiad Gwariant amlflwyddyn y llynedd. Felly, rydym yn cynnal cyllidebau cyfalaf portffolio ar eu lefel bresennol. Fodd bynnag, i sicrhau hyn bydd angen gwneud penderfyniadau anodd gan y bydd effaith chwyddiant yn golygu, mewn termau real, y bydd ein cyllidebau cyfalaf 8% yn is yn 2023-24 oherwydd diffyg buddsoddiad mewn cyfalaf gan Lywodraeth y DU.

## Goblygiadau Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU

1.07 Cafodd Llywodraeth Cymru derfynau gwariant ar gyfer 2022-23 i 2024-25 yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn ystod hydref 2021. Adlewyrchwyd y terfynau hyn yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 ynghyd â chynlluniau gwariant dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.

1.08 Gwnaeth Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn ddiweddar ddarparu refeniw ychwanegol o £666m ar gyfer 2023-24 a £509m ar gyfer 2024-25. Mae'r terfynau ar gyfer Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Llywodraeth Cymru bellach yn £18,916m ac £19,152m ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno, cyn ystyried addasiadau i'r grant bloc.

1.09 Ni chafwyd newid i'r DEL Cyfalaf o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref, gan aros yn £2,610m a £2,594m ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno. Mae hyn hefyd yn cynnwys symiau wedi'u clustnodi o £96m a £90m ar gyfer Trafodiadau Ariannol. Mae hyn yn darparu rhagolwg cyfyngedig ar gyfer cyfalaf, gyda'r gyllideb yn 2024-25 8% yn is mewn termau real nag yn 2022-23.

1.10 Hyd yn oed gyda'r cyllid adnoddau ychwanegol a amlinellir uchod, mae'r lefelau uchel o chwyddiant a brofir ar hyn o bryd yn golygu bod setliad Llywodraeth Cymru bellach yn werth llai mewn termau real na phan osodwyd yr amlenni gwariant. Gan ddibynnu ar y mesur chwyddiant a ddefnyddir, gallai'r setliad fod yn werth hyd at £3bn yn llai mewn termau real dros y tair blynedd sy'n cael eu cwmpasu gan yr Adolygiad o Wariant a £1bn yn llai yn 2023-24 yn unig.

1.11 I gefnogi cynllunio ariannol y tu hwnt i gyfnod y gyllideb, mae adroddiad y Prif Economegydd, sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, yn darparu dadansoddiad o'r amcanestyniadau cyllidol tymor canolig i dymor hir. Bydd hyn yn helpu i gynllunio gwariant ar adnoddau yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnal ein sefyllfa o ran cynllunio rhagdybiaethau ar sail tystiolaeth. Mae manylion pellach y cyd-destun ariannol a'r cyd-destun economaidd ar gyfer y gyllideb ar gael ym mhennod dau.

## Y cyd-destun amlflwyddyn

1.12 Gosodwyd y Gyllideb Ddrafft hon ar ben y Gyllideb amlflwyddyn a ddyrannwyd yn rhan o'r Adolygiad o Wariant yn 2022, ac ni ddylid ei hystyried yn lle honno. Dylai'r ymarfer ailflaenoriaethu a'r dyraniad cyllid ychwanegol sydd wedi deillio o Ddatganiad yr Hydref gael eu darllen ar y cyd â'r ymarfer dyraniadau a gynhaliwyd yn rhan o Gyllideb 2022-23 i 2024-25.

1.13 Cynhaliwyd adolygiad sylfaen sero o gyllid cyfalaf drwy'r Adolygiad o Wariant. Nid oes unrhyw newidiadau i'r dyraniadau amlflwyddyn a ddarparwyd yng Nghyllideb 2022-23 i 2024-25. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn y dyraniadau cyfalaf cyffredinol yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynllun Cyllid Seilwaith cysylltiedig.

## Cyfrifoldebau cyllidol ac ariannu


1.14 Ariennir Llywodraeth Cymru yn bennaf drwy grant bloc gan Lywodraeth y DU. Mae datganoli pwerau treth – Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ac Ardrethi Annomestig - yn golygu y bydd tua 18% o wariant Llywodraeth Cymru yn cael ei ariannu gan refeniw treth yn 2023-24.

1.15 Mae'r darlun a ganlyn yn dangos ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru. Ceir gwybodaeth bellach am bolisi trethi a refeniw ym mhennod tri.

1.16 Mae cytundeb fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn nodi'r trefniadau sy'n cefnogi datganoli trethi, pwerau benthyca cyfalaf, dulliau rheoli cyllidebol, ac addasiad seiliedig ar anghenion i fformiwla Barnett.

## Ffynonellau Cyllid

1.17 Mae'r ffeithlun isod yn rhoi manylion cyllid a ddaeth i law Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.




1.18 Mae tabl Ffynonellau Cyllid sy'n darparu data ar gyfer 2024-25 i'w weld yn y llyfr gwaith ODS [Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario] ar dudalen we Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

## Blaenoriaethau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft

1.19 Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed y llynedd yn rhan o Adolygiad o Wariant Cymru 2022, a oedd yn amlinellu cynlluniau gwariant dangosol hyd at 2024-25. Roedd y rhain yn cyd-fynd â chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'n nod cyffredinol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan wireddu ein huchelgeisiau i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach.

1.20 Rydym wedi gweithio'n galed i gynnal y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau fel Llywodraeth yn y cyfnod heriol hwn - a gallai gymryd mwy o amser i gyflawni rhai ohonynt - gan ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a thargedu cymorth i helpu'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw. I sicrhau hyn, mae'r Gyllideb Ddrafft yn canolbwyntio ar dair conglfaen fuddsoddi allweddol i sicrhau ein bod yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael inni o fewn ein setliad cyfyngedig yn cael cymaint o effaith â phosibl.

1.21 Mae pennod pedwar yn amlinellu'n fanylach y dyraniadau a geir o fewn y Gyllideb Ddrafft hon, yn erbyn pob un o'r tair conglfaen.

1.22 Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein gwasanaethau cyhoeddus – maent yn chwarae rhan bwysig yn ein cymunedau lleol fel ffynhonnell gefnogaeth, cymorth a chyflogaeth. Yng Nghymru, rydym bob amser wedi ceisio buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus, i'w hamddiffyn rhag effeithiau gwaethaf y toriadau a osodir gan Lywodraethau olynol y DU. Fodd bynnag, ar ôl degawd o gyni, Brexit a'r pandemig, mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn fregus. Nid oes ganddynt y cadernid i wrthsefyll ergydion economaidd pellach yn sgil chwyddiant uchel, prisiau ynni cynyddol a'r galw mwyaf erioed.

1.23 Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus i'w cefnogi drwy'r cyfnod caled hwn, ac yn y Gyllideb Ddrafft hon byddwn yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, llywodraeth leol a byd addysg, i helpu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen.

1.24 Byddwn hefyd yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu cymorth i'r bobl a'r busnesau hynny y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio fwyaf arnynt - drwy gynlluniau sy'n helpu pobl mewn argyfwng neu sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl.

1.25 Yn absenoldeb cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i gefnogi ail flwyddyn ei chynllun Cartrefi i Wcráin, byddwn yn parhau i ariannu ein hymateb dyngarol i bobl sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin ac yn ceisio diogelwch yng Nghymru. Rydym yn falch o'n henw da fel Cenedl Noddfa.

1.26 I gloi, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein heconomi yn ystod y cyfnod hwn o ddirwasgiad, gan osod sylfeini ar gyfer ffyniant y dyfodol ar yr un pryd. Bydd ein pecyn rhyddhad ardrethi annomestig cynhwysfawr i helpu i gefnogi busnesau yn parhau, a byddwn yn darparu rhyddhad trosiannol yn ystod y broses ailbrisio. Byddwn yn cefnogi mesurau cyflogadwyedd i helpu pobl i ddod o hyd i waith.

1.27 Byddwn hefyd yn cynnal ein buddsoddiadau cyhoeddus drwy gyflawni ein hymrwymiadau ar gyfer gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, galluogi gwell cysylltedd yng Nghymru a sicrhau ein bod yn parhau â'n taith tuag at Sero Net.

## Y Cytundeb Cydweithio

1.28 Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio yw'r prif fodd o ymgysylltu â'r Aelod Dynodedig ar ddyraniadau sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cydweithio.

1.29 Gwnaethom gytuno ar gyllideb tair blynedd yn rhan o Adolygiad o Wariant 2022 - mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynrychioli ail flwyddyn y cytundeb hwnnw. Mae'r dyraniadau ar gyfer y Cytundeb Cydweithio wedi'u diogelu yn rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau Dynodedig Plaid Cymru i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

1.30 Rydym yn parhau i wneud y gorau o'n portffolio buddsoddiad cyfalaf Trafodiadau Ariannol presennol, gan fuddsoddi mwy na £1.8bn mewn amrywiaeth eang o brosiectau sy'n cefnogi busnesau a'r sector tai. Mae cyfran fawr o'r cyfalaf hwn yn aros wedi'i fuddsoddi mewn benthyciadau tymor canolig i dymor hir a chynlluniau neu fuddsoddiadau ecwiti lle caiff benthyciadau tymor byrrach eu darparu, eu had-dalu, ac yna eu darparu eto i gefnogi busnesau eraill, lawer gwaith drosodd cyn i'r cynllun ddod i ben.

1.31 Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod ein cynlluniau buddsoddi gwreiddiol ar gyfer y cyllid hwnnw'n cael eu cynnal, wrth iddo barhau i gael ei fuddsoddi a'i ailfuddsoddi i'r eithaf yn y blynyddoedd nesaf.

1.32 Yn ogystal â diweddaru'r sefyllfa o ran y cyllid presennol hwn, rydym yn bwriadu gwneud dyraniadau pellach yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24.

## Proses y Gyllideb

1.33 Mae Llywodraeth Cymru, gyda chydsyniad Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd, wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y Gyllideb eleni. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gyda'i gilydd, ar 13 Rhagfyr 2022, ddogfennau'r Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, trethiant a chynigion benthyca, yn ogystal â chynlluniau gwario manwl ar bortffolios.

1.34 Ar ôl i Senedd Cymru graffu ar y cynlluniau hyn, byddwn yn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24 ar 7 Mawrth 2023.

# Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd

2.01 Ystyrir y rhagolygon economaidd a chyllidol yn fanylach yn adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon.

2.02 Mae'n tynnu sylw at y ffaith fod yr economi yng Nghymru a'r DU yn awr yng nghyfnod cynnar dirwasgiad, gyda data swyddogol yn dangos bod cynnyrch economaidd y DU wedi gostwng 0.2% yn nhrydydd chwarter 2022, o gymharu â'r chwarter blaenorol. Mae rhagolygon newydd gan Fanc Lloegr a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn dangos y bydd y cynnyrch economaidd yn lleihau eto yn y chwarter presennol (y pedwerydd). Yn draddodiadol, ystyr dirwasgiad yw cynnyrch economaidd neu gynnyrch domestig gros yn gostwng am ddau chwarter yn olynol. Yn ôl rhagolygon Banc Lloegr, bydd y dirwasgiad yn parhau tan ganol 2024, gyda gostyngiad cronnol o 2.9% mewn cynnyrch domestig gros. Erbyn hynny, byddai cynnyrch domestig gros 3.1% yn is na'r lefel cyn y pandemig. Mae OBR yn rhagweld dirwasgiad mwy arwynebol a byrrach, gyda chynnyrch domestig gros yn gostwng 2%, gostyngiad sylweddol o hyd.


2.03 Er bod OBR yn rhagweld dirwasgiad byrrach a llai andwyol nag y mae Banc Lloegr yn ei ragweld, mae'r rhagolygon ar gyfer incwm aelwydydd yn frawychus o lwm. Mae OBR yn dweud y bydd incwm gwario real aelwydydd fesul person (un o brif fesurau safonau byw), yn ôl OBR, yn gostwng 4.3% yn 2022-23. Dyna fyddai'r gostyngiad mwyaf mewn blwyddyn ers dechrau'r cofnodion swyddogol yn 1956-57. Y flwyddyn ganlynol, mae disgwyl i incwm gwario real aelwydydd ostwng 2.8% - sef yr ail gwymp mwyaf ar gofnod. Mae'r gostyngiad yn gyfwerth â £1,700 yr aelwyd yn y DU a £1,300 yr aelwyd yng Nghymru. Byddai gostyngiad 2 flynedd cronnol o fwy na 7% yn ostyngiad na welwyd ei debyg o'r blaen.

2.04 Mae OBR yn disgwyl i ddiweithdra yn y DU gynyddu o'r gyfradd bresennol o 3.6% i 4.9% erbyn canol 2024. Byddai cynnydd cyfatebol yng Nghymru gyfwerth ag 20,000 i 25,000 yn rhagor o bobl yn ddi-waith. Mae rhagolygon Banc Lloegr yn uwch – mae'n disgwyl y bydd diweithdra yn y DU yn cynyddu i 6.4%, a fyddai'n gyfwerth â thua 40,000 yn rhagor o bobl yn ddi-waith yng Nghymru.

2.05 Gwasgfa ddifrifol ar incwm aelwydydd yn sgil chwyddiant uwch yw'r prif ffactor sy'n arwain at y rhagolygon llwm ar gyfer yr economi. Mae hefyd yn wir fod capasiti yr economi i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau wedi taro cyfyngiadau o ran capasiti yn gynt nag yr oedd gwneuthurwyr polisi wedi'i ddisgwyl, gan ysgogi Banc Lloegr i godi cyfraddau llog. Gwelir cyfyngiadau o ran capasiti yn glir pan fo niferoedd uchel eithriadol o swyddi gwag yn cydfodoli ochr yn ochr â gweithlu sy'n lleihau, wrth i fwy a mwy o bobl oedran gweithio fynd yn economaidd anweithgar. Mae gweithlu llai yn her fawr i ragolygon ar gyfer ffyniant.

2.06 Mae prinder gweithwyr a phrisiau defnyddwyr uwch yn rhoi pwysau ar gyflogau yn y sector preifat. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd mewn cyflog nominal yn codi gyfuwch â chwyddiant. Fel yr amlygir yn Siart 2.1, yn y sector cyhoeddus, mae'r wasgfa ar gyflog termau real yn llawer mwy dwys nag yn y sector preifat. Mae enillion wythnosol cyfartalog y sector cyhoeddus, ar ôl ystyried chwyddiant, wedi gostwng mwy na 7%. Mae cyflogau termau real yn y sector preifat wedi gostwng 3.0%.

Siart 2.1 Newid % blynyddol mewn cyflog wythnosol wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant




Ffynhonnell: cyfrifwyd o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.07 Mae Banc Lloegr wedi codi'r gyfradd sylfaenol o 0.1% ym mis Rhagfyr 2021 i 3% ym mis Tachwedd 2022 i atal lefelau uchel o chwyddiant (roedd chwyddiant prisiau defnyddwyr blynyddol yn 11.1% ym mis Hydref) rhag gwreiddio mewn disgwyliadau o ran aelwydydd a busnesau.

2.08 Dros y tymor hirach, mae'r rhagolygon ar gyfer safonau byw a chryfder y sylfaen dreth yn dibynnu ar adfywiad yng nghyfradd twf cynhyrchiant, sydd yn hanesyddol wedi bod yn wan ledled y DU ers yr argyfwng ariannol yn 2008. Yn ôl rhagolygon newydd OBR, bydd cynhyrchiant yn gostwng y flwyddyn nesaf cyn codi i gyflymder a fyddai'n dal i fod yn is na'r gyfradd twf gyfartalog hirdymor o tua 2%.


2.09 Yn ôl OBR, disgwylir i fenthyca sector cyhoeddus ddod i gyfanswm o £177bn (7.1% o gynnyrch domestig gros) ym mlwyddyn ariannol 2022-23, i fyny o £133bn (5.7% o gynnyrch domestig gros) y llynedd. Erbyn 2027-28, disgwylir i fenthyca fod i lawr i £69bn (2.4% o gynnyrch domestig gros). Mae'r diffyg ym mlwyddyn olaf y rhagolygon yn agos i'r diffyg hirdymor cyfartalog a gofnodwyd cyn yr argyfwng ariannol.

2.10 Disgwylir i ddyled net y sector cyhoeddus fod yn gyfwerth ag 89.9% o incwm cenedlaethol neu gynnyrch domestig gros yn 2022-23, i fyny o 84.3% o gynnyrch domestig gros y llynedd. Disgwylir i'r ddyled gynyddu ymhellach yn y tair blynedd ganlynol, gan ddod i anterth ar 97.6% o gynnyrch domestig gros yn 2025-26. Yna disgwylir i'r ddyled sefydlogi am flwyddyn cyn gostwng i 97.3% o gynnyrch domestig gros yn 2027-28.

2.11 Yn unol â’r amcanestyniadau hyn ar gyfer y diffyg yn y gyllideb a dyled net Llywodraeth y DU, mae'r cyllid cyhoeddus yn cyrraedd targedau cyllidol newydd Canghellor y DU. Un targed yw sicrhau bod y ddyled yn gostwng fel cyfran o gynnyrch domestig gros erbyn 2027-28 a'r ail yw sicrhau nad yw’r diffyg yn mynd yn uwch na 3% o gynnyrch domestig gros yn yr un flwyddyn. Mae OBR wedi nodi nad oes gan y Canghellor lawer o lwfans gwallau na hyblygrwydd cyllidol i gyrraedd y targedau newydd.

2.12 Fel y dangosir yn Siart 2.2, gwnaeth cyllideb graidd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant dydd i ddydd ostwng 8% y pen mewn termau real yn ystod y 2010au. Yn y flwyddyn ariannol bresennol mae wedi adfer i lefel uwch nag yn 2010-11 am y tro cyntaf. O ganlyniad i benderfyniadau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref y Canghellor, rhoddodd Llywodraeth y DU £1.2bn o gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru dros y ddwy flynedd nesaf. Er hynny, dim ond cynnydd o 0.4% y flwyddyn y pen mewn termau real fydd i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant dydd i ddydd dros y ddwy flynedd, ar sail tebyg am debyg. Mae'r gyfradd twf isel iawn honno yn debygol o barhau am y tair blynedd ganlynol, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau ar gyfer terfynau gwariant adrannol y DU sy’n rhan o ragolygon cyllidol tymor canolig OBR.

Siart 2.2 Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real y pen (£, prisiau 2021-22)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Pennod 3: Trafniadau cyllido

## Trosolwg

3.01 Ariennir llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gyfuniad o grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU a refeniw a gynhyrchir gan drethi yng Nghymru.

3.02 Ym mis Ebrill 2015, cafodd y cyfrifoldeb ariannol dros ardrethi annomestig (NDR) ei ddatganoli i Gymru. Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018 - gan ddisodli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yn eu trefn, ac maent yn cael eu casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) ar 6 Ebrill 2019 ac maent yn cael eu casglu gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

3.03 Gyda'i gilydd, bydd CTIC, LTT, LDT ac NDR yn cyfrannu rhyw £4bn at gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2023-24, gan godi i £4.7bn yn 2024- 25.

## Polisi Trethi

3.04 Mae datganoli trethi yn bwysig. Mae trethi'n cynnig ysgogiad hanfodol i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau strategol pwysig i fusnesau a dinasyddion Cymru. Seilir dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi trethi gan y *Diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi*,[1] sy'n nodi'r setliad datganoli cyllidol fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017. Mae'n adlewyrchu hanes hirach ein trethi lleol, gan amlinellu'n glir flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd.

3.05 Mae'r diweddariad hwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd a'r profiad o lunio polisi trethi ers i drethi gael eu datganoli. Mae'n achub y cyfle i nodi a mynegi'r dull Cymreig neilltuol o ddatblygu a chyflwyno polisi trethi ar y cyd, gan gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae'n nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ymgorffori cynaliadwyedd, tegwch ac ystyriaethau cydraddoldeb yn y modd yr ydym yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

3.06 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Gwaith ar Bolisi Trethi 2021 -26[2] ochr yn ochr â'r diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi. Mae'r Cynllun Gwaith ar Bolisi Trethi yn adeiladu ar ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu[3] mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol ac yn hyrwyddo'r nod o sicrhau datganoli trethi cryf a sefydlog. Mae'n rhoi cyfeiriad a sicrwydd clir o ran blaenoriaethau polisi trethi Cymru am y pum mlynedd nesaf.

---

[1] Diweddariad ar y Fframwaith Polisi Trethi | LLYW.CYMRU

[2] https://llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2021-i-2026

[3] https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

3.07 Yn fras, mae blaenoriaethau polisi trethi Llywodraeth Cymru yn perthyn i'r tri maes canlynol:

- Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

- Y gwaith parhaus o adolygu polisïau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill.

- Ffocws parhaus ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru.

3.08 Rhagwelir y bydd gweithgarwch pellach yn dod i'r amlwg o waith cwmpasu a gwaith archwilio arall gan gynnwys trafod gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, a wneir fel rhan o'r broses o ddatblygu rhai o'r ffrydiau gwaith ar bolisi trethi. Mae cyhoeddi'r cynllun gwaith pum mlynedd yn galluogi pawb sydd â buddiant i ymwneud â'r agenda drethi yng Nghymru, gan sicrhau bod polisi trethi yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth. Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon rydym wedi cyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol yn erbyn y cynllun gwaith pum mlynedd.


3.09 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal cynhadledd drethi flynyddol, sy'n darparu cyfle pellach i ymgysylltu, addysgu a gwahodd mewnbwn i'n gwaith ar bolisi trethi. Cynhaliwyd y gynhadledd hon fel digwyddiad rhithwir ar 23 Tachwedd 2022.

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)

3.10 Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019. Mae treth incwm wedi'i datganoli yn rhannol i Gymru, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm - sylfaenol, uwch ac ychwanegol - i drethdalwyr Cymru. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bob agwedd arall ar dreth incwm o hyd ac mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru[4].

[4] Yn y mwyafrif o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru; er hynny darperir diffiniad llawn o dan adran 8 o Ddeddf Cymru 2014: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/section/8/enacted

Siart 3.1: Cyfraddau treth incwm yng Nghymru, 2023-24




3.11 Mae CTIC yn gweithio trwy i Lywodraeth y DU leihau 10c ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru'n 10c – gan gadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a Lloegr – neu ar gyfraddau gwahanol. Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chymryd mwy mewn Cyfraddau Treth Incwm Cymru oddi wrth bobl am o leiaf cyhyd ag y mae effaith economaidd Covid-19 yn para, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2023-24 yn 10c. Dangosir hyn yn Siart 3.1, sy'n dangos bod cyfradd gyfunol treth incwm y DU a Chymru ym mhob band yng Nghymru yr un fath â chyfradd dreth y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Trethi Cymreig eraill.

3.12 Mae'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) wedi'u datganoli'n llawn i Gymru. Cyflwynwyd y ddwy dreth hyn ar 1 Ebrill 2018 – gan ddisodli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yn eu trefn – ac maent yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae LTT ac LDT yn cynnig ysgogiadau pwysig sy'n galluogi Llywodraeth Cymru, os yw'n briodol, i hyrwyddo amcanion strategol y llywodraeth, megis mynd i'r afael ag effaith niferoedd yr ail gartrefi mewn rhai cymunedau yng Nghymru neu gefnogi cyflawni amcanion amgylcheddol ehangach. Yn dâl am y refeniw trethi, mae grant bloc Cymru wedi'i ostwng yn ôl swm sy'n gyfwerth â'r hyn yr oedd trethi blaenorol y DU (treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi) yn ei godi yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod y ddwy dreth yn cael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, i gynhyrchu'r refeniw y mae ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol Cymru.

## Y Dreth Trafodiadau Tir (LTT)

3.13 Roedd newidiadau i gyfraddau LTT yn cael eu datblygu fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Er hynny, yng ngoleuni newidiadau Llywodraeth y DU i gyfraddau treth dir treth stamp (SDLT), a gyhoeddwyd fel rhan o fini-gyllideb Llywodraeth y DU ar 27 Medi 2022 ac i atal ansicrwydd ynghylch cyfraddau LTT, cafodd y newidiadau hyn eu dwyn ymlaen i ddod i rym o 10 Hydref 2022.

3.14 Mae'r newidiadau, a ddaeth i rym o 10 Hydref, yn effeithio ar y prif gyfraddau preswyl. Ar gyfer y prif gyfraddau preswyl, mae'r trothwy cychwynnol wedi'i godi o £180,000 i £225,000. Mae'r gyfradd dreth gyntaf bellach wedi ei phennu yn 6% ac yn gymwys i'r gyfran o'r pris rhwng £225,000 a £400,000. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i gyfraddau eraill, gan gynnwys y cyfraddau preswyl uwch.

Tabl 3.1: Prif gyfraddau LTT Preswyl (o 10 Hydref 2022)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £250,000 | 6% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 i £1.5m | 10% |
| Mwy na £1.5m | 12% |

Tabl 3.2: Cyfraddau preswyl uwch LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 4% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 7.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 9 |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 11.5% |
| Mwy na £750,000 i £1.5m | 14% |
| Mwy na £1.5m | 16% |

Tabl 3.3: Prif gyfraddau amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £250,000 | 1% |
| Mwy na £250,000 i £1m | 5% |
| Mwy na £1m | 6% |

Tabl 3.4: Rhent les amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £2m | 1% |
| Mwy na £2m | 2% |

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT)

3.15 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynyddu cyfraddau LDT yn unol â chwyddiant yr RPI fel y rhagwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn hydref 2021, gydag effaith o 1 Ebrill 2023. Mae hyn yn parhau â'r polisi o gadw cysondeb ag ymagwedd Llywodraeth y DU at gyfraddau'r dreth dirlenwi a chynyddu yn unol â'r chwyddiant a ragwelir ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at bennu cyfraddau LDT yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses flynyddol o bennu cyfraddau, lle y rhoddir ystyriaeth i fanteision ac anfanteision newid y cyfraddau yn y dyfodol i hyrwyddo amcanion amgylcheddol ehangach.

3.16 Drwy bennu cyfraddau ar gyfer 2023-24 sy'n gyson â threth dirlenwi'r DU, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i elwa ar refeniw trethi, tra'n sicrhau bod y risg o symud gwastraff ar draws ffiniau yn llai. Bydd hyn yn sicrhau mesur o gysondeb a sefydlogrwydd ar draws y sector gwastraff tra bo cyfeiriad LDT yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn fanylach.

3.17 Mae Cymru ar flaen y gad o ran polisi gwastraff, ac mae LDT yn ysgogiad ychwanegol defnyddiol i gefnogi polisïau gwastraff Llywodraeth Cymru a chyrraedd y nod uchelgeisiol o Gymru ddiwastraff. Mae adolygiad annibynnol o LDT ar y gweill a bydd yn ystyried yr effaith y mae cyfraddau LDT wedi'i chael ar ymddygiadau yn y sector gwastraff ac i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth LDT wedi dylanwadu ar ymddygiadau. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi tua diwedd gwanwyn 2023. Y gobaith yw y bydd yn adeiladu ar ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer newidiadau i'r cyfraddau trethi yn y dyfodol a allai gael eu gweithredu o 2024 ymlaen.

3.18 Cyflwynwyd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ym mis Ebrill 2018 ac roedd yn cael ei gefnogi gan ddyraniad o £1.5m y flwyddyn am bedair blynedd, i gefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol mewn ardaloedd y mae gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yn effeithio arnynt. Cyhoeddwyd adolygiad o'r cynllun ym mis Mai 2022 ac roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol o ran cyflawni, effaith, a gwerth am arian.

3.19 Dangosodd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad fod ystod eang o gymunedau wedi elwa ar y cynllun, ac mae wedi cyfrannu at nifer o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â blaenoriaethau eraill sy'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru yn uniongyrchol. Bydd y cynllun yn parhau ar ei ffurf bresennol tra bo canlyniadau'r adolygiad LDT a thystiolaeth o ffynonellau ehangach yn cael eu hystyried.

3.20 Bydd y cyfraddau arfaethedig ar gyfer LDT, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, yn cynyddu fel y nodir yn y tabl isod.

Tabl 3.5: Cyfraddau LDT, £ y dunnell.

| Trothwy prisiau | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd safonol | £96.70 | £98.60 | £102.10 |
| Cyfradd is | £3.10 | £3.15 | £3.25 |
| Cyfradd gwarediadau anawdurdodedig | £145.05 | £147.90 | £153.15 |

## Ardrethi Annomestig (NDR)

3.21 Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r sectorau hynny yr effeithiwyd arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan y pandemig trwy gynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch yn 2023-4. Bydd hyn yn darparu gwerth mwy na £140m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau cymwys.

3.22 Bydd trethdalwyr manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru yn cael rhyddhad ardrethi annomestig drwy gydol 2023-24. Fel y cynllun tebyg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, bydd cynllun Llywodraeth Cymru yn cael ei gapio yn £110,000 am bob busnes ar draws Cymru. Mae ein dull gweithredu yn sicrhau y bydd busnesau yng Nghymru yn cael cymorth tebyg i'r hyn a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

3.23 Yn ogystal â'r cynllun rhyddhad ardrethi ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch, caiff y lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru ei rewi yn 2023-24. Amcangyfrifir bod y mesur hwn yw costio mwy na £100m.

3.24 Bydd y rhestr ardrethi annomestig nesaf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023, yn dilyn ailbrisiad. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi rhyddhad trosiannol i bob trethdalwr y mae ei atebolrwydd yn cynyddu fwy na £300, o ganlyniad i ailbrisio. Bydd unrhyw gynnydd mewn atebolrwydd trethi annomestig o ganlyniad i ailbrisio yn cael ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd.

3.25 Bydd trethdalwr yn talu 33% o'i atebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf (2023-24) a 66% yn yr ail flwyddyn (2024-25), cyn cyrraedd ei atebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn (2025-26). Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £113m dros ddwy flynedd i ariannu'r rhyddhad trosiannol hwn, gan gefnogi holl feysydd y sylfaen drethu drwy gynllun trosiannol cyson a syml.

3.26 Mae'r pecyn cymorth gwerth £319m hwn yn ychwanegol at ein cynlluniau rhyddhad parhaol a ariennir yn llawn ac sy'n darparu dros £240m o ryddhad i fusnesau a threthdalwyr eraill bob blwyddyn. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi busnesau i adfer ar ôl effeithiau'r pandemig a'u cefnogi drwy'r argyfwng costau byw presennol, i sicrhau bod economi Cymru'n parhau i ffynnu. Bydd hyn yn esgor ar becyn cyfunol o £490m dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

## Rhagolygon refeniw trethi annibynnol

3.27 Mae rhagolygon annibynnol o refeniw trethi datganoledig oddi wrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghlwm wrth y Gyllideb Ddrafft hon. Mae adroddiad Rhagolwg Trethi Cymru ar wahân, sy'n darparu cefndir a manylion am ragolygon, wedi'i gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Dangosir y rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd a gwmpesir gan y Gyllideb Ddrafft yn Nhabl 3.6. Nid yw'r refeniw CTIC a gynhwysir yma yn cynnwys symiau cysoni ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

### Tabl 3.6: Rhagolygon Refeniw Trethi £m

| | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|
| Treth Trafodiadau Tir | 314 | 301 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 41 | 39 |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 2,795 | 2,927 |

## Addasiad i'r grant bloc

3.28 Yn dilyn datganoli pwerau trethi i Gymru, cafodd grant bloc Llywodraeth Cymru ei leihau i adlewyrchu'r ffaith bod refeniw o drethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

3.29 At ddibenion y Gyllideb Ddrafft hon, mae'r addasiadau ar gyfer y grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn gyson â rhagolygon OBR ynghylch trethi cyfatebol y DU, yn seiliedig ar Ragolwg Economaidd a Chyllidol mis Tachwedd 2022. Cyfanswm yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yw £259m a £255m yn 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno.

3.30 Mae'r addasiadau i'r grant bloc ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru'n eu hysgogi gan y twf a ragwelir mewn refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mhob band treth incwm, gan ddefnyddio hefyd Ragolwg Economaidd a Chyllidol OBR ar gyfer mis Tachwedd. Yr addasiadau'r i'r grant bloc ar gyfer treth incwm yw £2,748m a £2,838m dros y ddwy flynedd.

3.31 Mae symiau cysoni hefyd yn 2023-24 a 2024-25. Yn 2023-24 mae hyn yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth alldro ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer LTT ac LDT yn 2021-22, ynghyd â symiau ar gyfer alldro 2020-21 ar gyfer CTIC ac addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Yn 2024-25 cynhwysir swm cysoni a ragwelir mewn perthynas â 2021-22 ar gyfer cyfraddau Cymru a'r addasiadau i'r grant bloc. Mewn termau net mae'r symiau cysoni hyn yn cynyddu £34m ar y gyllideb yn 2023-24 a £50m yn 2024-25.

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

3.32 Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o drefniadau'r fframwaith cyllidol i'n galluogi i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd sy'n deillio o refeniw trethi, trwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod. Disodlodd y broses flaenorol o gyfnewid cyllidebol.

3.33 Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal hyd at £350m. Mae'r symiau y ceir eu tynnu i lawr bob blwyddyn yn gyfyngedig i £125m ar gyfer gwariant refeniw a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes unrhyw derfynau blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.

3.34 Fe wnaeth y polisi cyllidebol, a fabwysiadwyd yn 2022-23 fel rhan o Adolygiad Gwariant diwethaf Cymru ac a fydd ar waith am weddill cyfnod y setliad amlflwyddyn hyd at a chan gynnwys 2024-25, gyflwyno strategaeth gyllidol newydd i sicrhau'r cyllid gorau posibl.

3.35 Hon fydd y flwyddyn gyntaf (2023-24) y caiff Cronfa Wrth Gefn Cymru ei defnyddio i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn yn lle dal cronfa wrth gefn heb ei dyrannu, gydag unrhyw symiau a dynnir i lawr yn cael eu cynnwys o fewn y gyllideb atodol briodol. Ar sail y dull hwn, nid yw'r cynlluniau gwariant hyn yn tybio y dylid tynnu symiau'n llawn o Gronfa Wrth Gefn Cymru gyda chyllid yn cael ei dynnu i lawr yn ôl yr angen yn unig drwy broses y gyllideb atodol.

## Safonau Cyfrifyddu Newydd IFRS16

3.36 Mae cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn eithrio addasiadau technegol sy'n deillio o ganlyniad i weithredu safonau cyfrifyddu newydd IFRS16 o ran trin lesoedd.

## Benthyca

3.37 Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnal ein cynlluniau i fanteisio i'r eithaf ar ein benthyciadau cyfalaf, gan dynnu'r uchafswm blynyddol o £150m y flwyddyn, a chan fenthyca £300m yn ychwanegol hyd at 2024-25 – yr uchafswm y gallwn gael mynediad ato ar hyn o bryd o fewn y fframwaith cyllidol.

3.38 Mae'r setliad cyfalaf cyfyngedig a gafodd Cymru o'r Adolygiad o Wariant yn 2021, a'r diffyg cyllid cyfalaf pellach fel rhan o Ddatganiad yr Hydref ym mis Tachwedd 2022, yn golygu bod rhaid inni fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael inni i gyflawni ein rhaglen buddsoddi cyfalaf uchelgeisiol. Mae effeithiau chwyddiant wedi erydu'r hyn y gallwn ei fforddio o fewn ein setliad presennol.

3.39 Nid yw benthyca cyfalaf yn ffynhonnell am ddim o arian ychwanegol – mae rhaid ei ad-dalu gyda llog. Mae costau benthyca wedi cynyddu yn unol â phwysau chwyddiant ehangach.

3.40 Mae'n bwysig inni reoli ein cyllideb cyfalaf o fewn yr hyblygrwydd sydd gennym ar hyn o bryd, ond hefyd rhaid inni barhau i sicrhau bod yr hyblygrwydd hwnnw'n adlewyrchu'n briodol yr heriau sy'n ein hwynebu mewn buddsoddiadau seilwaith hirdymor.

3.41 O fewn ein fframwaith presennol, rydym yn cynnal ein cynlluniau ar sail ein hymagwedd at ariannu buddsoddiad drwy fanteisio ar dynnu i lawr y mathau lleiaf costus o gyfalaf yn gyntaf - fel arfer ein setliad grant bloc. Ni fyddwn ond yn defnyddio mathau drutach o gyllid cyfalaf, megis benthyca, unwaith y byddwn wedi disbyddu'r ffynonellau traddodiadol hyn. Ni chaiff modelau arloesol, gan gynnwys buddsoddiad preifat mewn prosiectau, eu hystyried ond ar brosiectau sy'n risg isel ac o'r raddfa briodol.

3.42 Yn ein trafodaethau â Thrysorlys Ei Fawrhydi, byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros yr hyblygrwydd ehangach y mae ei angen i reoli ein cyllideb yn y ffordd fwyaf effeithiol i bobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys parhau i bwyso am gynnydd i'r terfynau blynyddol a chyfanredol ar ein mynediad at fenthyca cyfalaf, yn ogystal ag ar gyfer mwy o hyblygrwydd o ran cario ymlaen a thynnu i lawr ar ddiwedd y flwyddyn o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru.

3.43 Bydd Llywodraeth Cymru'n tynnu ei chyfalaf benthyca o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Mae rhagolygon ad-dalu am y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf i'w gweld gan ddefnyddio'r ddolen hon i'r llyfr gwaith ODS: Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario.

3.44 Seilir y rhagolwg ad-dalu ar ragdybiaeth o gyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog o 3% ar fenthyca yn 2022-23 a 3.7% yn 2023-24 a 2024-25.

## Cyllid Arloesol

3.45 Yn ogystal â'n cyllidebau cyfalaf craidd a'n pwerau benthyca, rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o ddulliau cyllido arloesol i helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol. Darperir y newyddion diweddaraf am y cynlluniau hyn yn atodiad B.

## Ffynonellau o gyllid i Lywodraeth Cymru

3.46 Mae ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid y grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU, ar y cyd â threthiant sydd wedi'i ddatganoli'n llawn, Cyfraddau Treth Incwm Cymru ac ardrethi annomestig. Mae tabl sy'n nodi ffynonellau ar gyfer cyllid adnoddau a chyfalaf i'w weld yn nhab 1 yn y ddogfen isod:

Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario.

# Pennod 4: Buddsoddi ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru

## Trosolwg

4.01 Mae datblygu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 wedi bod yn un o'r rhai anoddaf ers datganoli. Mae chwyddiant ar ei uchaf ers 40 mlynedd ac mae'r DU yn mynd i mewn i ddirwasgiad mewn sefyllfa waeth na holl brif economïau gwledydd y G7. Mae'r cyd-destun economaidd ehangach hwn yn y DU wedi arwain at bwysau ariannol sylweddol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

4.02 Mae effaith barhaus penderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gwaddol pandemig Covid-19, ynghyd â chyfnod hir o gyni sydd wedi'i orfodi gan Lywodraethau olynol y DU, wedi erydu gwydnwch gwasanaethau cyhoeddus.

4.03 Mae'r flwyddyn hon wedi dod â dwy her bellach, sef rhyfel yn Ewrop, wrth i Rwsia oresgyn Wcráin, a'r argyfwng costau byw parhaus. Mae’r ddwy her hon wedi cynyddu prisiau i unigolion, busnesau, a gwasanaethau.

4.04 Gwnaeth mini-gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Medi sefyllfa anodd yn waeth: gan gynyddu cost benthyca i bobl ac i'r Llywodraeth; achosi cynnwrf yn y marchnadoedd ariannol a chreu twll du mewn cyllid cyhoeddus.

4.05 Mae perygl y bydd y camau gweithredu y mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd ar hyn o bryd yn gwneud yr argyfwng costau byw yn waeth, gan arafu adferiad tymor hir y DU yn sgil y pandemig a pheryglu ei gallu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, flwyddyn yn unig ar ôl cyfarfod COP26 yn Glasgow.

4.06 Pan gyhoeddwyd ein Hadolygiad o Wariant amlflwyddyn yng Nghymru ar gyfer 2022, bu inni amlinellu ein cynlluniau uchelgeisiol a osododd y sylfeini ar gyfer Cymru gryfach, decach, a gwyrddach. Mae chwyddiant wedi erydu gwerth arian parod ein cynlluniau ond nid cwmpas ein huchelgais.

4.07 Yn union fel y gwnaethom yn ystod y pandemig, rydym wedi gwneud penderfyniadau anodd i ailgyfeirio ein cyllid i gyflawni ein blaenoriaethau ac i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Fel rhan o waith paratoi'r Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2023-24, rydym wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu i nodi o ble y gellir rhyddhau cyllid o fewn y cynlluniau presennol i'w ailffocysu ar feysydd sydd â'r angen mwyaf. Bydd hyn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf i bobl ledled Cymru.

4.08 Wrth ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn, efallai y bydd effeithiau negyddol lle mae'r cyllid wedi'i ailflaenoriaethu. Bydd manylion pellach am y dewisiadau sydd wedi'u gwneud yn cael eu hamlinellu fel rhan o ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu'r Senedd.

4.09 Mae'r gwaith ailflaenoriaethu wedi ei seilio ar dair blaenoriaeth:

- Amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol
- Parhau i ddarparu cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfyngau sy'n ein hwynebu
- Cefnogi ein heconomi drwy gyfnod o ddirwasgiad

4.10 Mae'r rhagolygon cyllid cyfalaf wedi dirywio ers i Adolygiad Gwariant Cymru gael ei gynnal, gan effeithio ar Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIS). Nid oedd unrhyw ddyraniadau cyfalaf ychwanegol i Gymru yn Natganiad yr Hydref, sy'n golygu bod cyllidebau portffolio yn cael eu cynnal ar y lefel y cytunwyd arni y llynedd. Er hynny, gyda chwyddiant yn uwch na'r disgwyl, mae cyllideb cyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru yn 2024-25 bellach 8.1% yn is mewn termau real nag yn 2022-23.

4.11 Fe wnaethom ddarparu sylfaen gref i'n rhaglen gyfalaf yn 2022-23 i sicrhau ein bod yn cryfhau'r cysylltiad rhwng seilwaith a mynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a natur drwy gynnal adolygiad sylfaen sero.

4.12 Er gwaethaf yr heriau, rydym wedi ymrwymo o hyd i'r uchelgeisiau a nodir yn WIIS. Rydym wedi llunio diweddariad o'r llif prosiectau buddsoddi, sy'n nodi'r camau y mae angen inni eu cymryd i gyflawni'r uchelgeisiau hynny, a chaiff hwn ei gyhoeddi gyda'r Gyllideb Ddrafft hon.

4.13 Mae'r bennod hon yn rhoi manylion pellach am ein hymrwymiadau ar gyfer 2023-24 a dyraniadau dangosol wedi'u diweddaru ar gyfer 2024-25. Bydd y dyraniadau ar gyfer 2024-25 yn cael eu diweddaru ymhellach fel rhan o broses Cyllideb 2024-25.

4.14 Fel yr amlinellir ym mhennod un, dylid darllen dogfennaeth y Gyllideb hon ar y cyd â chynigion buddsoddi sylweddol y llynedd a'r dull ariannu amlflwyddyn (Cyllideb Ddrafft a Chyllideb Derfynol 2022-23) a'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru sefydledig a'r Cynllun Cyllid Seilwaith cysylltiedig ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf.

4.15 Dylid darllen y blaenoriaethau buddsoddi hyn ochr yn ochr â'r Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) (Atodiad A) ac adroddiad y Prif Economegydd. Mae'r ddau yn rhoi mwy o fanylion am y cyd-destun a'r effeithiau ehangach sy'n llywio ein proses o wneud penderfyniadau cyllidebol.

## Amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

4.16 Yn ystod argyfwng costau byw, y rhai mwyaf agored i niwed sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau cyhoeddus fwyaf: ar ein gwasanaeth iechyd, ysgolion, a gwasanaethau cymdeithasol. Mae diogelu'r gwasanaethau cyhoeddus allweddol hyn yn bwysicach yn awr nag erioed.

### GIG Cymru

4.17 Gan adeiladu ar y dyraniadau a amlinellwyd ar gyfer 2023-24 a 2024-25, fel rhan o'n Hadolygiad o Wariant Cymru yn 2022, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £165m pellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2023-24, a seilir ar linell sylfaen i mewn i 2024-25.

4.18 Ynghyd â thros £9.4bn o gyllid presennol, bydd hyn yn cefnogi ein gwasanaeth iechyd wrth iddo barhau i ymateb i bwysau gofal brys a gofal brys ac i leihau amseroedd aros hir, sydd wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Bydd yn gwneud hyn, tra'n parhau i drawsnewid y ffordd y caiff gofal ei ddarparu, gyda mwy o wasanaethau'n cael eu darparu yn agosach at gartrefi pobl mewn cymunedau lleol. Hyd yn oed gyda'r codiad hwn mewn cyllid, er hynny, bydd dewisiadau anodd i'r GIG wrth iddo geisio diogelu gwasanaethau rheng flaen yn wyneb pwysau chwyddiant uchel yn ogystal â chostau ynni cynyddol.

4.19 Rydym wedi ymrwymo i wneud ein gorau glas, trwy fuddsoddiad parhaus, i gefnogi'r GIG wrth iddo barhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau mewn cymunedau lleol ac ysbytai i gefnogi ein hiechyd a'n llesiant corfforol a meddyliol.

## Llywodraeth Leol

4.20 Mae llywodraeth leol ar flaen y gad o ran darparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus hanfodol, yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o gyflawni llawer o'n huchelgeisiau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cynnydd yng nghost ynni a chwyddiant ar draws yr holl wasanaethau wedi effeithio ar yr awdurdodau lleol, gan gynnwys mewn dau o'u meysydd gwasanaeth mwyaf, sef ysgolion a gofal cymdeithasol. Mae hyn ochr yn ochr â chynnydd cyffredinol yn y galw mewn sawl maes gwasanaeth.

4.21 Mae ysgolion Cymru'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol; darperir cyllid ar gyfer ysgolion yn bennaf drwy setliad llywodraeth leol. Mae cyllideb addysg Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwariant ar ysgolion, athrawon, a rhaglenni addysg ehangach, gan gynnwys prydau ysgol am ddim, cyflwyno'r cwricwlwm newydd, hyfforddiant i athrawon a chymorth i helpu dysgwyr i adfer wedi'r pandemig.

4.22 O ganlyniad i benderfyniadau gwario a wnaed mewn perthynas ag addysg yn Lloegr, cafodd Cymru gyllid ychwanegol yn Natganiad yr Hydref. Mae hyn yn cael ei ddarparu'n llawn i lywodraeth leol drwy godiadau i'r setliad heb ei neilltuo a thrwy'r gyllideb addysg.

4.23 Byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i gefnogi'r awdurdodau lleol drwy'r cyfnod heriol hwn ac i sicrhau eu bod yn dal yn gynaliadwy yn y dyfodol. O ganlyniad i'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud, rydym yn darparu £227m yn ychwanegol yn 2023-24 a £268m yn 2024-25 i'r setliad llywodraeth leol; mae hyn yn adeiladu ar y cyllid a amlinellwyd gennym fel rhan o'n Hadolygiad Gwariant 2022, sydd bellach yn darparu £1bn hyd at 2024-25.

## Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

4.24 Mae gofal cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol yng Nghymru, gan gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol yn y gymuned tra'n cefnogi'r gwasanaeth iechyd ehangach hefyd. Heb ofal cymdeithasol effeithiol, bydd gallu'r GIG i weithredu'n effeithiol yn lleihau'n gyflym.

4.25 Mae'r galw am ofal cymdeithasol wedi cynyddu'n gyflym ond mae'r sector o dan bwysau dwys, wrth iddo ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff. Mater hirhoedlog yw hwn, sydd wedi'i waethygu gan benderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a chyfyngu mynediad at gronfa gyflogaeth yr oedd symudiad rhydd yn ei ddarparu.

4.26 Ym mis Ebrill 2022, roeddem yn falch o allu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol. Er mwyn cynnal hyn, ac yn unol â'n hymrwymiad i waith teg, rydym wedi gwneud darpariaeth reolaidd o £70m i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, o fewn y dyraniadau i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol a’r setliad llywodraeth leol.

4.27 Ynghyd â'n gwaith parhaus ar delerau ac amodau yn y sector, rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cefnogi recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol.

### Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus Ehangach

4.28 O fewn y Gyllideb hon rydym yn darparu £3m i sicrhau bod Cymru'n parhau i gyfrannu'n llawn at Ymchwiliad Covid-19 y DU. Rydym hefyd yn darparu £0.8m i dalu costau Diwygio'r Senedd i sicrhau bod ein sefydliadau yn gallu cynrychioli pobl Cymru yn well yn y dyfodol.

4.29 Mae'r sefydliadau sy'n chwarae rhan wrth gefnogi ein cenedl, gan gynnwys amddiffyn ein treftadaeth a'n diwylliant, yn wynebu ystod o bwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Mae'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael yn golygu tra na allwn ddiwallu’r pwysau hyn. Rydym wedi dyrannu dros £2.5m i'n cyrff noddedig, law yn llaw â chamau a gymerwyd i ddiogelu cyllidebau ac i helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n gynaliadwy.

### Parhau i ddarparu cymorth i'r rhai y mae’r argyfyngau sy'n ein hwynebu yn effeithio fwyaf arnynt

4.30 Rydym yn parhau i gefnogi'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw yng Nghymru. Rydym wedi nodi cyfres o raglenni a fydd yn helpu i ddarparu cymorth wedi'i dargedu a chymorth tymor byr i gynnal neu gefnogi incwm ac i atal rhagor o bobl gael eu gwthio i mewn i dlodi yn ystod yr argyfwng hwn. Rydym yn dal yn ymwybodol, er hynny, fod prif ysgogiadau cymorth – treth a lles – yn dal yn nwylo Llywodraeth y DU.

4.31 Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cymorth i bobl sy'n chwilio am ddiogelwch a noddfa yng Nghymru yn y Gyllideb hon, gan gynnal ein traddodiad hirsefydlog o helpu eraill pan fyddant mewn angen.

### Cymorth gyda Chostau Byw

4.32 Gan adeiladu ar y pecyn costau byw a ddarperir yng Nghyllideb Derfynol 2022-23, rydym yn cynnal ein hymrwymiad i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn sgil yr argyfwng costau byw a’r dirwasgiad.

4.33 Mae tlodi yn effeithio nid yn unig ar y rhai y mae’n eu taro, ond hefyd ar bob gwasanaeth cyhoeddus. Bydd pobl sy'n ei chael yn anodd fforddio llety neu fwyd yn troi at wasanaethau lleol am gymorth. Mae tlodi yn cael effaith niweidiol ar les meddyliol ac iechyd corfforol, gan arwain at fwy o angen am ofal y GIG yn awr ac yn y tymor hwy. Felly rydym yn targedu cymorth i atal rhagor o bobl rhag syrthio i dlodi drwy sicrhau bod ganddynt ddigon o arian i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol.

4.34 Mae cynnal cymorth i'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF), sy'n darparu taliadau cymorth brys i bobl mewn angen, yn rhan sylfaenol yr ydym yn ei roi. Bydd y dyraniad ychwanegol o £18.8m yn sicrhau bod pobl mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n ddifrifol arnynt yn gallu parhau i gael mynediad at y cymorth brys hwn.

4.35 Mae'r peilot incwm sylfaenol yn ymyriad radical, sy'n cefnogi grŵp o bobl ifanc sy'n gadael gofal trwy roi incwm o £1,600 iddynt bob mis. Rydym yn parhau i gefnogi'r peilot, fydd yn para am ddwy flynedd ac yn dyrannu £2.2m yn ychwanegol yn 2023-24.

4.36 Fel rhan o'r pecyn costau byw y cytunwyd arno fel rhan o Gyllideb Derfynol 2022-23, darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a Mynediad at PDG. Bwriedir i hyn helpu plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm is a phlant sy'n derbyn gofal i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial llawn. Gan adeiladu ar y swm ychwanegol o £20m a fuddsoddwyd yn yr Adolygiad o Wariant y llynedd, rydym yn parhau â'n buddsoddiad yn PDG yn 2023-24 gyda dyraniad ychwanegol o £9m.

4.37 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod pobl Cymru'n gallu cael lle addas i fyw. Mae cyllid ar gyfer tai a digartrefedd yn parhau i fod yn faes buddsoddi sy'n amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Rydym wedi dyrannu £10m i'r gyllideb atal digartrefedd er mwyn hybu'r buddsoddiad mewn atal digartrefedd ac ymyriadau rhyddhad ledled Cymru sy'n darparu cymorth i awdurdodau lleol barhau â'n dull o 'beidio ag anghofio am neb'.

## Yr Ymateb Dyngarol i Wcráin

4.38 Gwnaethom ymrwymiad clir i groesawu pobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin ac rydym yn falch o'r ymateb gan y miloedd o bobl sydd wedi agor eu cartrefi i groesawu pobl o Wcráin. Yn wreiddiol, sefydlwyd ein cynllun uwch-noddwyr i noddi 1,000 o bobl o Wcráin yn uniongyrchol. Hyd yn hyn, rydym wedi llwyddo i gefnogi bron 3,000 o bobl sydd wedi cyrraedd Cymru drwy'r llwybr uwch-noddwyr. Mae hyn yn dangos yn glir bod Cymru'n Genedl Noddfa.

4.39 Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw ymrwymiad ariannu ar gyfer y cynllun Cartrefi i Wcráin yn 2023-24. Yn 2022-23 fe wnaethom ariannu ein cynllun uwch-noddwyr, gan gynnwys llety a chymorth cofleidiol, trwy ddefnyddi cyllid o'n cronfeydd wrth gefn. Byddwn yn parhau i gefnogi pobl sy'n cyrraedd o Wcráin yn 2023-24 ac rydym wedi ymrwymo swm pellach o £40m i sicrhau bod pobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn parhau i gael man diogel a noddfa yng Nghymru. Yn 2024-25, rydym wedi ymrwymo i £20m i gefnogi ein hymateb dyngarol i Wcráin. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau.

## Addysg

4.40 Addysg yw un o'r arfau mwyaf pwerus i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac mae'n fuddsoddiad allweddol yn ein dyfodol.

4.41 Yn ogystal â'r cyllid yr ydym yn ei ddarparu i ysgolion drwy setliad llywodraeth leol, rydym yn dyrannu £10m yn ychwanegol i ysgolion o gyllidebau Addysg yn 2023-24. Mae hyn yn cynnwys £5.5m yn ychwanegol i gefnogi parhad y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu; a swm pellach o £4.5m i gefnogi gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhan o'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg.

4.42 Bydd £9m yn ychwanegol hefyd i gefnogi darpariaeth ôl-16, gan gynnwys adolygiad o gyllid Adnewyddu a Diwygio a phwysau neilltuol eraill ar gyfer y sector chweched dosbarth ysgolion a'r sector Addysg Bellach.

## Helpu busnesau i fynd drwy'r dirwasgiad

4.43 Rydym yn gwneud ein gorau glas i gefnogi ein heconomi yn ystod cyfnod o ddirwasgiad, gan osod sylfeini hefyd ar gyfer ffyniant yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael inni a all wneud y gwahaniaeth mwyaf – sef rhyddhad ardrethi busnes, mesurau cyflogadwyedd i helpu pobl i ddod o hyd i waith a chynnal ein buddsoddiadau cyhoeddus i wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, hwyluso gwell cysylltedd yng Nghymru a sicrhau ein bod yn parhau â'n taith tuag at Sero Net.

## Pecyn Rhyddhad Ardrethi Annomestig

4.44 Bydd pob busnes yng Nghymru yn elwa ar y pecyn o gymorth trethi annomestig, gwerth £319m, y byddwn yn ei ddarparu yn 2023-24. Bydd y pecyn yn ar waith yn ychwanegol at ein cynlluniau rhyddhad parhaol sy'n darparu tua £240m o ryddhad i dalwyr ardrethi ledled Cymru.

4.45 Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sectorau hynny yr effeithiwyd arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan y pandemig trwy gynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch yn 2023-24. Bydd hyn yn darparu gwerth mwy na £140m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau cymwys.

4.46 Bydd trethdalwyr manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru yn cael rhyddhad ardrethi annomestig drwy gydol 2023-24. Fel y cynllun tebyg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, bydd cynllun Llywodraeth Cymru yn cael ei gapio yn £110,000 am bob busnes ar draws Cymru. Mae ein dull gweithredu yn sicrhau y bydd busnesau yng Nghymru yn cael cymorth tebyg i'r hyn a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

4.47 Yn ogystal â'r cynllun rhyddhad ardrethi ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch, caiff y lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru ei rewi yn 2023-24. Bydd hyn yn cefnogi holl dalwyr ardrethi Cymru ar gost amcangyfrifedig o fwy na £100m.

4.48 Bydd y rhestr ardrethi annomestig nesaf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023, yn dilyn ailbrisiad. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi rhyddhad trosiannol i bob trethdalwr y mae ei atebolrwydd yn cynyddu fwy na £300, o ganlyniad i ailbrisio. Bydd unrhyw gynnydd mewn atebolrwydd trethi annomestig o ganlyniad i ailbrisio yn cael ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd.

4.49 Bydd trethdalwr yn talu 33% o'u hatebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf (2023-24) a 66% yn yr ail flwyddyn (2024-25), cyn cyrraedd eu hatebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn (2025-26). Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £113m dros ddwy flynedd i ariannu'r rhyddhad trosiannol hwn, gan gefnogi holl feysydd y sylfaen drethu drwy gynllun trosiannol cyson a syml. Bydd hyn yn esgor ar becyn cyfunol o £490m dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

4.50 Rydym wedi ymrwymo i gefnogi busnesau i adfer ar ôl effeithiau'r pandemig ac i roi hwb iddynt drwy'r argyfwng costau byw presennol, i sicrhau bod economi Cymru'n parhau i ffynnu.

## Mesurau Cyflogadwyedd a Sgiliau

4.51 Mae sgiliau a chyflogaeth yn parhau i fod yn ddulliau pwerus o fynd i'r afael â thlodi. Mae galluogi pobl i ymdrin â'r farchnad gyflogaeth, a sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cyfleoedd naill ai i ddychwelyd i'r gwaith neu ddechrau gyrfa newydd, yn allweddol i helpu'r economi i fynd i'r afael â'r dirwasgiad presennol.

4.52 Rydym yn parhau i ddarparu buddsoddiad ar gyfer ein rhaglen brentisiaethau flaenllaw. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio yn erbyn cefndir o her economaidd ac ansicrwydd sylweddol, sy'n gwaethygu am fod colli cyllid yr UE ar y gweill. Er mwyn helpu i frwydro yn erbyn hyn, bydd £18m ychwanegol yn cael ei fuddsoddi mewn prentisiaethau, gan danlinellu ein hymrwymiad i ddarparu rhaglen sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd uwchsgilio llwyddiannus ac o ansawdd uchel.

4.53 Byddwn yn defnyddio'r cyllid hwn i gynnal ein ffocws ar flaenoriaethau sgiliau technegol, anghenion yr economi sylfaenol a'r sectorau galw uchel fel iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, ac i gyfrannu at ein huchelgeisiau sero net.

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

4.54 Yn unol â'r hyn a amlinellir yn Llwybr Newydd, ein strategaeth drafnidiaeth, mae trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl yng Nghymru. Mae trafnidiaeth yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd lleoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

4.55 Mae'n chwarae rôl hanfodol wrth dyfu'r economi, drwy helpu pobl sy'n gaeth mewn tlodi. Mae trafnidiaeth yn cefnogi gallu pobl i gael gafael ar gyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau lleol eraill fel llyfrgelloedd, gyda theithio ar fysiau yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan y rhai sydd wedi'u heffeithio gan yr argyfwng costau byw.

4.56 Mae darparu'r opsiwn o drafnidiaeth carbon isel a chysylltedd gwell yn angenrheidiol nid yn unig ar gyfer cymudo, ond hefyd os ydym am gyrraedd targedau lliniaru effeithiau newid hinsawdd erbyn 2050. Ochr yn ochr â gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnal yr ymrwymiadau hyn, rydym yn cydnabod bod pwysau chwyddiant ar gyfer y sector trafnidiaeth gyhoeddus yn ychwanegu at y sefyllfa yr effeithiwyd arni eisoes o ganlyniad i'r pandemig. Rydym wedi dyrannu £40m i gefnogi'r gwasanaethau hyn.

# Pennod 5: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru

## Cyllideb Gwariant Cymru

5.01 Mae gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2023-24 yn cynnwys dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant (MEGs) Llywodraeth Cymru o £21bn a chynlluniau dangosol o £21bn yn 2024-25 (adnodd cyllidol yn ogystal â dyraniadau cyfalaf).

5.02 Mae'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2024-25 yn cynnwys newidiadau bach i'r cynlluniau a amlinellwyd yn wreiddiol fel rhan o broses y Gyllideb, 2022-23. Byddant yn cael eu hadolygu'n sylweddol fel rhan o broses y Gyllideb, 2024-25.

5.03 Mae'r holl dablau a gynhwysir ym mhennod pump y ddogfen naratif a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, ynghyd â'r tablau a ddangosir yn atodiadau A i C o'r ddogfen honno, bellach i'w gweld yn y llyfr gwaith ffynhonnell ddata agored (ODS) Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario ar dudalen we Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario

5.04 Mae cyhoeddi'r tablau mewn un ddogfen mewn fformat ODS yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y cyflwynir data'r Gyllideb a gwneud y data yn agored i bawb.

5.05 Mae'r tablau a gynhwysir yn y llyfr gwaith ODS yn cynnwys:

- Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru
- Dyrannu Cyllideb Llywodraeth Cymru
- Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru
- Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru
- Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru
- Newidiadau i Ddyraniadau MEG Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru
- Benthyca Uniongyrchol at Ddibenion Cyfalaf
- Cysoni rhwng y Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol
- Newidiadau o Flwyddyn i Flwyddyn

5.06 Mae'r tabl sy'n nodi dyraniadau Cyllideb Cymru yn dangos cydrannau cyllideb gwariant Cymru, gan nodi manylion y Prif Grwpiau Gwariant a chyllidebau dangosol Comisiwn y Senedd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn dangos cyllid cronfeydd wrth gefn heb ei ddyrannu. O 2023-24, rydym wedi dechrau dilyn strategaeth gyllidol newydd lle y byddwn yn defnyddio cyllid a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn, yn lle cynnal cronfa wrth gefn DEL heb ei ddyrannu. Mae'r dyraniadau MEG yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym mhennod pedwar, ac yn ffurfio ein cyfansymiau rheoli ar gyfer rheoli'r Gyllideb drwy gydol y flwyddyn.

## Categorïau o wariant

5.07 O fewn dyraniadau'r MEG, ceir gwahanol fathau o wariant a ddefnyddir at wahanol ddibenion:

- Adnoddau cyllidol
- Adnoddau anghyllidol
- Cyfalaf cyffredinol
- Cyfalaf Trafodiadau Ariannol
- Gwariant a Reolir yn Flynyddol

5.08 Mae'r tablau sy'n dangos crynodebau o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru 2023-24 a Chyfanswm Dyraniadau Dangosol 2024-25 yn nodi'r dyraniadau MEG yn ôl y categorïau hyn. Gellir eu gweld trwy ddefnyddio'r ddolen i'r llyfr gwaith ODS a ddangosir ym mharagraff 5.03.

# Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol o Gyllideb Llywodraeth Cymru fel rhan o'r cylch cyllideb flynyddol. Diben yr asesiad hwn yw adnabod tueddiadau allweddol, ac effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amryw o feysydd, gan gynnwys rhoi sylw dyladwy ar draws y gofynion statudol. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau strategol yn ymwneud â'r Gyllideb yn lleihau'r effaith anghymesur ar unrhyw grŵp neu faes penodol; yn helpu i adnabod cyfleoedd i sicrhau cymaint o effeithiau positif â phosibl a lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith fwyaf positif.

2. Mae'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol yn rhoi sylw dyladwy i'r gofynion statudol a ganlyn:

   - Deddf Cydraddoldeb 2010
   - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
   - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
   - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
   - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3. Mae'r broses hefyd yn rhoi sylw dyladwy i'r gofynion anstatudol a ganlyn:

   - Cydraddoldeb
   - Iechyd
   - Cyfiawnder
   - Asesiad Amgylcheddol
   - Bioamrywiaeth
   - Prawfesur Gwledig
   - Y Gymraeg

4. Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r canfyddiadau o'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol a amlinellir uchod a dangos sut y bydd y Gyllideb yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Mae ymgymryd â'r asesiad hwn yn broses ailadroddol sy'n tynnu ar ystod o wybodaeth ac arbenigedd. Mae diagram 1 isod yn rhoi trosolwg syml o'r broses sy'n arwain at lunio'r ddogfen hon.

## Asesiad Effaith Integredig Strategol: trosolwg syml

Cam 1: Dylid cynnal Asesiadau Effaith Integredig fel rhan o'r cylch polisi gan eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am y gyllideb.

Cam 2: Gweinidogion unigol yn ystyried effaith ar draws portfolios

Cam 2.1 Ynghyd â chyhoeddi'r prif Asesiad Effaith Integredig Strategol, mae hefyd yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgorau craffu.

Cam 3: Cyflwyno comisiynau'r gyllideb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) a fydd yn tynnu ar Asesiadau Effaith Integredig a thystiolaeth ehangach sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau Gweinidogion unigol.

Cam 4: Asesu Effeithiau i lywio’r Asesiad Effaith Integredig Strategol

- Dadansoddiad iteraidd o ystod o ffynonellau tystiolaeth macro i nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau cysylltiedig ac ystyried y ffordd orau o gydweddu cyllid â chanlyniadau i sicrhau gwerth am arian.
- Nodi effeithiau o’r adolygiad iteraidd o bob MEG a nodi unrhyw effeithiau cronnol, croestoriadol neu anfwriadol a chyfleoedd posibl i hybu’r effeithiau cadarnhaol a lliniaru’r effeithiau negyddol.
- Gall Cam 4 arwain yn ôl i Gamau 2 a 3 neu ymlaen i Gam 5.

Cam 5: Y Cabinet yn ystyried dyraniadau’r gyllideb

- Gall Cam 5 arwain yn ôl i Gam 4 neu ymlaen i Gam 6.


Cam 6: Llunio Cyllideb ddrafft ar sail penderfyniadau’r Cabinet.

- Gall Cam 6 arwain yn ôl i Gam 5 neu ymlaen i Gam 7.

Cam 7: Llunio a chyhoeddi Crynodeb o’r Asesiad Effaith Integredig Strategol

- Yn crynhoi’r effeithiau strategol ar draws ystod o feysydd effaith a gofynion statudol.
- Yn cysylltu’r meysydd a nodwyd â phenderfyniadau strategol am y gyllideb.
- Cyflwyno’r ddogfen ar ffurf atodiad yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddir.
- Gall Cam 7 arwain yn ôl i Gam 6.

**Diagram 1: Asesiad Effaith Integredig Strategol – trosolwg syml**




5. Mae’r broses Asesu Effaith Integredig Strategol yn gyfan gwbl ar wahân i Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru, sy'n asesu'r effeithiau ar lefel prosiect neu bolisi unigol. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio dull integredig ar gyfer asesiadau effaith sy’n ein galluogi ni i ddeall effaith penderfyniadau gwariant yn well, gan geisio cael gwell dealltwriaeth o effeithiau rhyngblethol ac anfwriadol y gwariant er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith orau bosibl.

6. Ystyrir amryw o ffynonellau macro-dystiolaeth fel rhan o'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol, gan gynnwys adroddiad Llesiant Cymru, yr adroddiad pum mlynedd ar dueddiadau'r dyfodol a'r adroddiad blynyddol ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr). Rydym hefyd yn gweithio gydag unedau tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf. Ystyrir tystiolaeth ffurfiol ac anffurfiol yn briodol fel rhan o'r broses hon, sy'n cynnwys gwaith meithrin cysylltiadau a wnaed gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a Chomisiynwyr Statudol.

7. Ni fydd y ddogfen hon yn:

- Darparu asesiadau effaith integredig unigol ar gyfer prosiectau, polisïau a phenderfyniadau penodol.
- Manylu ar bob un broses benderfynu a (neu) darn o dystiolaeth a adolygwyd fel rhan o'r broses hon.
- Darparu rhestr o bob nodwedd neu faes effaith unigol a ystyrir.

8. Ni ddylid darllen y ddogfen hon ar ei phen ei hun. Dylid ei darllen ar y cyd â naratif ehangach y Gyllideb Ddrafft a'r dogfennau ategol fel adroddiad y Prif Economegydd. Ar ôl cyhoeddi dogfennau'r Gyllideb Ddrafft byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r holl dystiolaeth Weinidogol i bwyllgorau craffu'r Senedd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion gan bob portffolio Gweinidogol ar y dyraniadau penodol a wnaed, gan gynnwys gwybodaeth am effaith y penderfyniadau. Nid yw'r ddogfen hon ar gael ar hyn o bryd ond bydd ar gael yn adran Cyllideb Ddrafft 2023-2024 gwefan Llywodraeth Cymru o ganol mis Ionawr 2023.

## Datblygu ein dull o asesu effaith

9. Yn 2022 gwnaethom sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Nod y grŵp hwn yw meithrin cysylltiadau a dylanwadau ar welliannau i'n prosesau Cyllideb a threthi, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb, sydd i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru, ar dudalen y Gyllideb Ddrafft. Mae'r grŵp wedi cefnogi'r gwaith o wella'r ddogfen hon ac yn parhau i weithio gyda ni i ddatblygu'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol a chyfathrebu'r canlyniadau drwy'r broses Gyllideb flynyddol. Mae map trywydd manylach o welliannau i'w weld yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb.

10. Rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau â llywodraethau eraill y gwelir eu bod yn arweinwyr mewn asesu effaith drwy'r Rhwydwaith Llywodraethau Llesiant (WeGo). Mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn y rhwydwaith hwn yn hanfodol i'n cefnogi ni wrth inni esblygu a gwella ein dull o asesu effaith.

11. Rydym yn cydnabod y bydd y broses o gynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol a chyfathrebu'r broses honno i gynulleidfa ehangach yn un o welliant parhaus, ac y bydd yn esblygu dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r newidiadau strwythurol i'r ddogfen hon yn seiliedig ar adborth gan ein rhanddeiliaid yn gam arall ar y daith honno.

12. Hoffem ddiolch i'n rhanddeiliaid o'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a'r Pwyllgor Cyllid am ein cefnogi ar y daith hon hyd yma.

## Crynodeb o'r effeithiau a nodwyd

13. Mae pennod pedwar yn gosod y cyd-destun ar gyfer llunio’r Gyllideb Ddrafft hon a'r penderfyniadau cyffredinol a wnaed. Mae'r canlynol yn grynodeb o rai o'r prif dueddiadau a meysydd effaith a nodwyd ar draws blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sydd wedi llywio rhai o’r penderfyniadau strategol a wnaed ynglŷn â'r Gyllideb. Gan fod cynlluniau dangosol hyd at 2024-25 eisoes wedi'u cyhoeddi fel rhan o'n proses ar gyfer Cyllideb 2022-23, mae'r asesiad hwn yn adeiladu ar yr asesiad blaenorol.

14. Mae Cyllideb Ddrafft eleni yn cael ei chyhoeddi mewn cyd-destun ariannol ac economaidd anodd iawn, gan gynnwys dirwasgiad, chwyddiant uchel, yr argyfwng costau byw, y rhyfel yn Wcráin a'r adferiad parhaus yn dilyn y pandemig. Mae proses y Gyllideb wedi tynnu sylw at y dewisiadau allweddol yn y Gyllideb Ddrafft hon, a’r nod yw cydbwyso’r canlyniadau yn y tymor byr ac yn y tymor hir. Mae angen cydbwyso pwysau acíwt tymor byr sy'n gysylltiedig â chostau byw, Wcráin a phwysau chwyddiant ehangach gyda chynaliadwyedd mwy hirdymor y gwasanaethau cyhoeddus. Er bod y cyd-destun sy'n ein hwynebu yn heriol, rydyn ni’n parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni ein Rhaglen Lywodraethu a, lle bo modd, yn lleddfu'r effeithiau negyddol sydd wedi deillio o benderfyniadau anodd yn y Gyllideb.

15. Er bod y cyd-destun presennol sy’n ein hwynebu yn heriol, rydym yn benderfynol o gadw ein huchelgais a, lle bo modd, lliniaru’r effeithiau negyddol a ddaeth o ganlyniad i setliad nad yw'n ateb y pwysau chwyddiant sy’n wynebu Cymru a'r penderfyniadau cyllidebol anodd sy'n deillio o hynny. Mae'r sefyllfa ariannol hynod heriol sy’n ein hwynebu yn cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei wneud.

16. I’n galluogi ni i ddiogelu meysydd allweddol, rydyn ni wedi ail-flaenoriaethu cyllid o £87.4m o’n cynlluniau presennol i ail-ganolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig ar y meysydd lle mae’r angen mwyaf, i sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Rydym yn cydnabod drwy wneud hynny y bydd effaith negyddol ar y meysydd hynny lle mae cyllid wedi’i ail-flaenoriaethu. Bydd rhagor o fanylion am y dewisiadau hyn yn cael eu hamlinellu fel rhan o ymatebion y Gweinidogion unigol i’w pwyllgorau craffu perthnasol yn y Senedd.

17. Mae arian wedi cael ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol
- Parhau i roi cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw sy'n ein hwynebu
- Cefnogi ein heconomi drwy gyfnod o ddirwasgiad

18. Mae'r adran hon wedi ei llunio i adlewyrchu’r pedwar parth datblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy’n nodi'r meysydd llesiant a ystyrir fel rhan o'n dull gweithredu: Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Uwchlaw hyn mae asesiad sy'n edrych ar yr holl feysydd a nodwyd er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio dull integredig.

## Crynodeb cyffredinol o effaith Cyllideb Ddrafft 2023-24

19. Yn seiliedig ar yr asesiad a fu'n sail i'r Gyllideb Ddrafft hon, mae'r dewisiadau allweddol yn cynnwys cydbwyso canlyniadau tymor byr a thymor hwy. Yn y

tymor byr, roedd angen cydbwyso pwysau acíwt a oedd yn gysylltiedig â chostau byw, ein hymateb dyngarol i'r rhyfel yn Wcráin a phwysau chwyddiant ehangach yn erbyn cynaliadwyedd tymor hwy y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg, a sicrhau ffocws clir ar yr amcanion llesiant a geir o fewn y Rhaglen Lywodraethu.

20. Wrth wneud hyn, roedd angen inni wynebu'r realiti nad oedd ein setliad ariannu – daw'r rhan fwyaf o'n cyllid drwy grant bloc gan Lywodraeth y DU – yn ddigon i gwrdd â'r pwysau cyfunol hyn. Felly, roedd angen inni ail-flaenoriaethu cyllid o fewn ein cynlluniau presennol gan ei ddefnyddio lle gall gael yr effaith fwyaf, a chydbwyso'n ofalus beth yw effeithiau gwneud hynny. Yn y cyd-destun hwn, ni fu modd lliniaru'r holl effeithiau sy'n wynebu pobl yng Nghymru, gwasanaethau cyhoeddus, ein heconomi, na'n hamgylchedd.

21. Roedd rhai o'r effeithiau allweddol a fu'n sail i'n hystyriaethau yn cynnwys gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen ym meysydd iechyd, ysgolion ac mewn awdurdodau lleol. Roedd hyn ar y sail y byddai effeithiau negyddol ar y gwasanaethau hyn yn cael effaith anghymesur ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, a phobl ag amhariadau a chyflyrau iechyd hirdymor. Byddai effeithiau negyddol ar y gwasanaethau hyn yn debygol iawn o gynyddu anghydraddoldebau iechyd ac addysg sy'n bodoli eisoes a byddai'r rhain yn cael effaith anghymesur o negyddol ar bobl sydd â nodweddion croestoriadol.

22. Mae'r argyfwng costau byw sy'n dwysáu yn cael mwy o effaith ar y rheini ar yr incwm isaf sydd mewn mwy o beryg o orfod lleihau eu gwariant ar hanfodion fel bwyd a gwres. Mae pobl anabl, rhieni sengl a theuluoedd mwy gyda phlant, pensiynwyr a'r rhai mewn llety rhent preifat yn teimlo pwysau ac effeithiau anghymesur. Gall eraill hefyd wynebu pwysau penodol, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol neu ddaearyddol. Er enghraifft, a ydynt yn byw mewn ardal wledig neu mewn cartref nad yw'n effeithlon o ran ynni. Felly rydym wedi blaenoriaethu cefnogaeth i fynd i'r afael â hyn drwy gynlluniau megis y Gronfa Cymorth Dewisol, Prydau Ysgol am Ddim, y Grant Datblygu Disgyblion a darpariaeth ddigartrefedd.

23. Er ei bod yn rhy fuan i asesu effeithiau tymor hwy y pandemig ar bobl ifanc, mae tystiolaeth gynnar yn dangos eu bod wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y canlyniadau economaidd-gymdeithasol. Mae tystiolaeth bod effeithiau tarfu ar addysg wedi effeithio'n arbennig ar bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

24. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, rydym wedi ceisio sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl ar gael i flaenoriaethu'r rhai mwyaf agored i niwed – a'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn dibynnu arnynt – i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach.

### Cymdeithasol

25. Mae'r pandemig, chwyddiant cynyddol a'r argyfwng costau byw i gyd wedi cael effaith andwyol ar anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae ein system iechyd a gofal cymdeithasol a'n gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu pwysau eithriadol, ar lefel sydd heb ei phrofi o'r blaen. Mae hyn yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar gefnogi cymunedau i fynd i'r afael â'r pwysau sy'n eu hwynebu ar unwaith yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb.

26. Mae anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru yn ganlyniad i ffactorau niferus ac amrywiol. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2022 yn tynnu sylw at y ffaith bod anghydraddoldebau eang yn parhau mewn disgwyliad oes a marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn waeth ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae'r ardaloedd hyn yn tueddu i gynnwys mwy o bobl Ethnig Leiafrifol, menywod, pobl iau a phobl anabl.

27. Disgwylir i bwysau o ganlyniad i boblogaeth sy'n mynd yn gynyddol hŷn ac sydd â phroblemau iechyd cymhleth yn ogystal â phwysau gwaddol pandemig Covid-19 fod yn waeth oherwydd yr argyfwng costau byw a'r nifer uwch o bobl sy'n byw mewn tlodi.

28. Ym mis Gorffennaf 2022, nododd adroddiad Cipolwg ar Dlodi Sefydliad Bevan bod 43% o bobl Cymru wedi gweld dirywiad yn eu hiechyd meddwl o ganlyniad i'w sefyllfa ariannol a bod 30% wedi gweld dirywiad yn eu hiechyd corfforol. Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o adrodd am effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl - 48% o'i gymharu â 39%. Roedd adroddiad Llesiant Cymru hefyd yn nodi gostyngiad arwyddocaol yn ystadegol yn llesiant meddyliol plant 11 i 16 oed.

29. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yn parhau i fod dan bwysau. Mae mwy o fenywod na dynion yn cael eu cyflogi yn y sector hwn, felly os bydd mwy o bwysau ar y gwasanaethau hyn bydd hynny'n rhoi pwysau anghymesur ar fenywod.

30. Bydd effeithiau negyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio'n negyddol ar yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r effeithiau negyddol hyn yn debygol o daro'r rhai mwyaf agored i niwed yn galetach, yn enwedig y rhai sydd â phroblemau iechyd cymhleth, yr henoed a phlant.

31. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2022 yn nodi na fu fawr o welliant i rai anghydraddoldebau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n debygol fod pandemig Covid-19 ac yn fwy diweddar, y cynnydd mewn chwyddiant wedi cael effaith fwy ar rai pobl a oedd eisoes dan anfantais. Cyn y pandemig, roedd cyfraddau tlodi cyffredinol wedi aros yn gymharol sefydlog yng Nghymru am fwy na 15 mlynedd, a phlant yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol o hyd. Bydd y cynnydd diweddar mewn chwyddiant wedi effeithio'n arbennig ar bobl ar incwm isel.

32. Er mai ychydig iawn o bobl fydd ddim wedi'u heffeithio gan yr argyfwng costau byw, nid yw'n effeithio'n gyfartal ar bob unigolyn ac aelwyd. Mae pobl anabl, pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, pobl ar incwm is a'r rheini mewn tai ar rent yn fwy tebygol o fod wedi gorfod lleihau'r swm y maent yn ei wario ar fwyd a hanfodion o ganlyniad i'w costau byw cynyddol. Plant yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol. Canfu adroddiad Cipolwg ar Dlodi Sefydliad Bevan 2022 fod un o bob 10 o deuluoedd ag un plentyn ac un o bob pum teulu â dau blentyn yn torri i lawr ar fwyd ar gyfer plant; ac mae'r elusen Plant yng Nghymru yn dweud bod y ffigurau diweddaraf yn dangos bod 34% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

33. Yn 2021-22, roedd ychydig yn llai nag un o bob pump (19%) o bobl sydd â salwch neu anabledd hirdymor sy'n eu cyfyngu yn byw ar aelwyd mewn amddifadedd materol. Mae hyn bron i dair gwaith yn uwch nag ar gyfer pobl heb anabledd (7%). Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Runnymead ddogfen o'r enw Falling Faster a oedd yn nodi bod mwy na chwarter (26%) y bobl sydd mewn tlodi dwfn yn dod o gefndir Du ac Ethnig Leiafrifol, er mai dim ond tua

15% o boblogaeth y DU sydd yn y grŵp ethnig hwn. O ganlyniad, mae pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol ar hyn o bryd 2.2 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol na phobl Wyn. Mae pobl Bangladeshaidd fwy na thair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi difrifol.

34. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Chwarae Teg ym mis Medi 2022, mae menywod yn fwy agored i effeithiau'r argyfwng costau byw. Cefnogwyd hyn ymhellach gan rybudd gan y Women's Budget Group y bydd 'ergyd driphlyg i fenywod'. Dywed fod menywod yn fwy tebygol o weithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, o ddibynnu ar wasanaethau cyhoeddus, ac o ddod yn ddarparwyr dewis olaf pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tynnu'n ôl.

35. Yn ystod 2021-22, aseswyd bod 9,228 o aelwydydd yng Nghymru dan fygythiad o fod yn ddigartref. Roedd hyn yn gynnydd o 27% o'i gymharu â 2020-21 ond 8% yn is na'r lefel yn 2019-20. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Cymorth Cymru ym mis Medi 2022 yn tynnu sylw at effaith yr argyfwng costau byw ar weithwyr digartrefedd a gweithwyr cymorth tai rheng flaen yng Nghymru. Mae'n dangos bod 44% o bobl yn cael trafferth talu eu biliau, 11% yn ei chael hi'n anodd talu rhent a 7% wedi dechrau defnyddio banciau bwyd. Mae gwybodaeth anecdotaidd gan wasanaethau rheng flaen eraill sy'n cefnogi cydlyniant cymunedol yn dangos darlun tebyg mewn meysydd eraill.

36. Yn ogystal ag ystyried effeithiau ehangach, mae'r effeithiau strategol allweddol hyn wedi bod yn sail i amryw o'r dyraniadau a geir ym mhennod pedwar o'r Gyllideb Ddrafft:

- Cyllid o £10m i gwrdd â phwysau tai, gan gynnwys digartrefedd
- Darparu codiad o £227m o fewn y setliad llywodraeth leol a £165m ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys darpariaeth reolaidd o tua £70m ar gyfer talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol
- Darparu dros £2.5m i gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru i fynd rywfaint o'r ffordd i'w cefnogi gyda'r pwysau sydd arnynt
- Darparu cyllid pellach o £2.2m i gefnogi ein Peilot Incwm Sylfaenol
- £18.8m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol i sicrhau cymorth brys ar gyfer pobl pan fyddant ei angen fwyaf.

## Economaidd

37. Mae gwybodaeth fanylach am y rhagolygon economaidd wedi'i nodi yn adroddiad y Prif Economegydd ar dudalen we Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'r effaith economaidd lawn yn sgil chwyddiant cynyddol, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw cynyddol yn parhau i ddod i'r amlwg, ac nid yw'r effeithiau'n gyfan gwbl hysbys nac wedi'u deall yn llawn eto. Mae hwn yn ddarlun sy'n esblygu, a fydd yn parhau i ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Er bod nifer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, mae disgwyl iddynt gael effaith negyddol ar economi Cymru a safonau byw pobl.

38. Mae busnesau ledled Cymru yn wynebu pwysau ariannol cynyddol yn sgil cynnydd mewn costau ynni, costau tanwydd a chostau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn chwyddiant. Mae arolwg o gyfrifwyr siartredig wedi dangos, ochr yn ochr â heriau ariannol, bod busnesau hefyd yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â gofynion rheoleiddio a throsiant staff. Datgelodd yr arolwg hefyd

fod pryderon am ehangu i ardaloedd newydd yn cael eu nodi'n amlach gan fusnesau yng Nghymru na gweddill y DU.

39. Mae dangosfwrdd Economi Cymru mewn Rhifau yn rhoi trosolwg o sut mae economi Cymru yn perfformio mewn perthynas â rhanbarthau Lloegr a gwledydd y DU yn erbyn wyth dangosydd allweddol. Mae'r ffigurau diweddaraf (Tachwedd 2022) yn dangos bod y gyfradd gyflogaeth wedi gostwng 1.4% pwynt dros y flwyddyn ddiwethaf a'i fod ar hyn o bryd yn 72.3%. Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) y pen wedi cynyddu 0.9% dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae Cymru yn safle 10 allan o 12 ymhlith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn y gyfradd anweithgarwch economaidd sydd bellach yn 24.9% (cynnydd o 1.6% pwynt ar y flwyddyn); mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn uwch mewn menywod. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 roedd gostyngiad o 15.4% mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – dyma'r gostyngiad mwyaf ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2020.

40. Mae bylchau cyflog parhaus o fewn ein gweithlu, gan gynnwys bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 6.1% (Ebrill 2022), bwlch cyflog ethnigrwydd o 1.4% (Ebrill 2019) a bwlch cyflog anabledd o 11.6% (2021). Mae pobl anabl a dynion oed gweithio yn fwy tebygol o beidio â meddu ar unrhyw gymwysterau; ac mae pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol 47% yn fwy tebygol o fod ar gontract dim oriau, o'i gymharu â'u cyfoedion Gwyn.

41. Mae addysg a sgiliau yn parhau i fod yn un o'r dulliau mwyaf pwerus o fynd i'r afael â thlodi. Er ei bod yn rhy fuan i asesu effeithiau tymor hwy y pandemig ar bobl ifanc, mae tystiolaeth gynnar yn dangos bod y canlyniadau economaidd-gymdeithasol wedi effeithio'n anghymesur arnynt hwy. Mae tystiolaeth bod yr effeithiau o ran tarfu ar addysg wedi effeithio'n arbennig ar bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Gan ddibynnu ar effeithiolrwydd y camau lliniaru sydd ar waith, gallai'r effeithiau andwyol ymddangos yn y farchnad lafur dros y blynyddoedd nesaf, neu hyd yn oed y degawdau nesaf.

42. Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl yng Nghymru. Newidiodd patrymau trafnidiaeth yn ddramatig yn ystod pandemig Covid-19. Cyn y pandemig roedd y defnydd o geir preifat yn tyfu; roedd teithio llesol (cerdded a beicio) yn cynyddu mewn nifer fechan o leoedd yn unig, gan aros yn sefydlog ar lefel genedlaethol. Gwnaeth y defnydd o geir preifat newid yn ôl yn gyflym, ac erbyn mis Gorffennaf roedd yn ôl i 80% o'r defnydd cyn y pandemig, tra bod y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn parhau i fod ar 30%. Gwnaeth llai o lif traffig leihau llygredd, gan helpu i wella ansawdd aer.

43. Mae trafnidiaeth yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd lleoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae trafnidiaeth – neu ddiffyg trafnidiaeth – yn cael effaith enfawr ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gyda heriau daearyddol yn gysylltiedig â darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae gan drafnidiaeth rôl hanfodol i'w chwarae wrth dyfu'r economi, drwy helpu pobl sy'n gaeth mewn tlodi. Mae'n cefnogi gallu pobl i gael gafael ar gyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau lleol eraill fel llyfrgelloedd, gyda theithio ar fysiau yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan y rhai sydd wedi'u heffeithio gan yr argyfwng costau byw.

44. Mae Cymru'n parhau i chwarae ei rhan wrth ymateb i'r argyfwng dyngarol a ddilynodd ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Hyd at 15 Tachwedd, roedd dros 6,100

o bobl wedi dod i Gymru drwy'r cynllun Cartrefi i Wcráin, a bron i 3,000 drwy gynllun uwch-noddwr Llywodraeth Cymru, sef teirgwaith ein hymrwymiad gwreiddiol. Mae bron i draean o bobl o Wcráin sy'n cyrraedd Cymru o dan 18 oed.

45. Yn ogystal ag ystyried effeithiau ehangach, mae'r effeithiau strategol allweddol hyn wedi bod yn sail i amryw o'r dyraniadau a geir ym mhennod pedwar o'r Gyllideb Ddrafft:

- Pecyn ychwanegol o gymorth ardrethi annomestig gwerth £319m yn 2023-24, a mwy na £460m dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, gan gynnwys £140m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru.
- £9m pellach i'n Grant Datblygu Disgyblion, £9m ar gyfer Addysg Bellach a'r chweched dosbarth, £5.5m ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a £4.5m ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- £40m pellach yn 2023-24 a £20m yn 2024-25 i gefnogi ein hymateb parhaus i'r argyfwng yn Wcráin.
- £18m ar gyfer prentisiaethau i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ymgorffori'r sgiliau ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf heddiw.
- Rydym yn buddsoddi £40m mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i gynnal cymorth i'r sector.

## Amgylcheddol

46. Fe wnaethom ddarparu'r sylfeini i sicrhau ein bod yn cryfhau'r cysylltiad rhwng seilwaith a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy gynnal adolygiad sylfaen sero y llynedd. Fodd bynnag, mae chwyddiant sy'n codi'n gyflym wedi effeithio ar y cynlluniau hyn.

47. Er y byddwn yn edrych ar yr holl opsiynau – gan gynnwys edrych yn greadigol ar sut rydym yn ariannu prif flaenoriaethau cyfalaf wrth symud ymlaen – a'r holl ysgogiadau sydd ar gael inni, mewn rhai achosion bydd yn rhaid i ni leihau rhai o'n cynlluniau cyfalaf oherwydd effaith chwyddiant a diffyg arian cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth y DU i gydnabod y pwysau hyn. Fodd bynnag, nid ydym wedi lleihau ein huchelgais, a byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i Gymru Wyrddach, sydd wedi'i ymgorffori o fewn ein cyllidebau cyfalaf.

48. Nid rhywbeth ar gyfer y dyfodol pell yw newid yn yr hinsawdd – yr haf hwn, fe gawsom dywydd crasboeth a sychder eang. Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi y rhagwelir y bydd tymheredd blynyddol yng Nghymru yn codi 1.2°C erbyn 2050; disgwylir i lawiad yn ystod yr haf leihau tua 15%; disgwylir i lawiad yn ystod y gaeaf gynyddu 6%; a rhagwelir y bydd lefel y môr yn codi 22cm. Bydd effeithiau'r newidiadau hyn yn effeithio ar rai o'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gydag effeithiau llifogydd yn effeithio yn anghymesur ar gymunedau Ethnig Lleiafrifol er enghraifft.

49. Mae'r manteision o ran ein lles meddyliol, cymdeithasol a chorfforol yn sgil treulio amser ym myd natur yn hysbys iawn. Er bod gwelliannau wedi bod i rai rhywogaethau, mae Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2020 yn dangos bod bioamrywiaeth yn dirywio yn gyffredinol.

50. Mae gan fioamrywiaeth werth cynhenid ac mae'n cynnig manteision i bobl, drwy wasanaethau ecosystemau, fel atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Credir bod colli bioamrywiaeth yn achosi risgiau i ddiogelwch a lles pobl, gyda'r mwyaf bregus yn teimlo'r effeithiau negyddol mwyaf. Nododd papur briffio diweddar gan Cyswllt Amgylchedd Cymru: "Mae tystiolaeth gynyddol yn dangos bod pwysau amrywiol, o newid hinsawdd a threfoli i arferion ffermio a physgota anghynaliadwy, yn cael effaith negyddol ar natur a'r amgylchedd ehangach ledled Cymru. Nid yw'r un o'n hecosystemau wedi profi'n gadarn, ac mae un ymhob chwech o'n rhywogaethau dan fygythiad o ddiflannu."

51. Fel rhan o'n Cyllideb 2022-23, amlinellwyd pecyn sylweddol o fuddsoddiadau refeniw gwerth mwy na £160m a phecyn gwerth £1.8bn o fuddsoddiadau cyfalaf wedi'u targedu mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur hyd at 2024-25.

- Er gwaetha'r dewisiadau anodd y bydd angen i ni eu gwneud oherwydd ein setliadau, rydym yn amddiffyn y cynlluniau hyn cyn belled ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys y camau a amlinellwyd gennym ar gyfer ein Coedwig Genedlaethol, gyda'r buddsoddiad pellach wedi'i gynllunio dros y ddwy flynedd nesaf, gan arwain at gyfraddau creu coetiroedd yn cyflymu i'r lefelau uchaf mewn degawdau. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweld y buddsoddiad mwyaf erioed mewn amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu arfordirol: mwy na £214m rhwng 2022-23 a 2024-25. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu hamlinellu yn ymatebion y Gweinidogion i'w pwyllgorau craffu perthnasol.
- Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon rydym hefyd yn cyhoeddi'r rhifyn diweddaraf o'n Llif Prosiectau Buddsoddi yn y Seilwaith, a gellir ei weld ar https://llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2023-2024
- Llywodraeth Cymru. Mae'r llif prosiectau yn nodi'r prosiectau a'r rhaglenni sydd eu hangen i gyflawni uchelgeisiau Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIS) a gyhoeddwyd gennym y llynedd. Sefydlodd y Strategaeth fframwaith strategol newydd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith dros y deng mlynedd nesaf, gydag ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

## Diwylliant

52. Mae Cymru'n wlad â threftadaeth gyfoethog ac amrywiol, sy'n ymestyn o wreiddiau a chadarnleoedd y Gymraeg a diwylliant Cymru. Profwyd bod meysydd megis diwylliant, y celfyddydau ac amgueddfeydd, y sectorau twristiaeth a chwaraeon yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddwl. Mae'r gallu i ymarfer ein meddwl a'n corff yn medru creu mwy o wytnwch, mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ac yn gyfle i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gwella mynediad a chyfranogiad.

53. Yn ôl adroddiad gan Chwaraeon Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022, mae dau o bob pump o ymatebwyr yn dweud bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i fod yn actif, gyda bron i dri o bob 10 yn dweud eu bod wedi bod yn gwneud llai o chwaraeon a gweithgarwch corfforol oherwydd newidiadau mewn costau byw.

54. Mae data diweddaraf y Cyfrifiad wedi dangos bod 55.2% o breswylwyr Cymru yn nodi hunaniaeth ‘Gymreig’ yn unig, ac mae hyn i lawr o 57.5% yn 2011. Mae data diweddaraf y Cyfrifiad yn nodi bod 17.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, sydd 1.2 pwynt canran yn is na Chyfrifiad 2011. Dywed y Cyfrifiad “mae'r gostyngiad yn nifer a chanran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer a chanran y plant a phobl ifanc y nodwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg”.

55. Roedd yr Arolwg Defnydd Iaith yn dangos mai plant sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, yn ôl pob tebyg oherwydd defnydd rheolaidd mewn ysgolion. Mae'n llawer mwy tebygol y bydd plant rhwng tair a 15 oed wedi dechrau dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol na'r rhai 65 oed neu'n hŷn (69% o'i gymharu â 15%). Mae'n debyg mai'r newid sylweddol yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg dros y 50 mlynedd diwethaf sy'n gyfrifol am hyn, gyda chynnydd cyffredinol o ran nifer y disgyblion sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac o ran nifer yr ysgolion Cymraeg sydd wedi'u hagor ledled Cymru.

56. Yn ogystal ag ystyried effeithiau ehangach, mae'r effeithiau strategol allweddol hyn wedi bod yn sail i amryw o'r dyraniadau a geir ym mhennod pedwar o'r Gyllideb Ddrafft:

- Mae setliad dros dro llywodraeth leol eleni yn dangos cynnydd ychwanegol o £227m a fydd yn rhoi cymorth i ysgolion a gwasanaethau eraill a gefnogir gan awdurdodau lleol.
- Bydd dros £3m ychwanegol yn cael ei ddarparu i'r pum corff hyd braich diwylliant a chwaraeon (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru), Gyrfa Cymru a Cadw i helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n gynaliadwy, gan gydnabod na allwn fodloni eu pwysau cyfunol yn llawn.
- Rydym o'r farn bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, felly byddwn yn parhau i weithio i gryfhau ein hiaith a'n diwylliant, gan ei diogelu lle bo angen, ei hyrwyddo a helpu i wneud y Gymraeg yn realiti bob dydd i bawb. O blith nifer o gamau eraill, byddwn yn gwneud hynny drwy ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed a gweithwyr addysg proffesiynol, a byddwn yn datblygu strategaeth ddiwylliant newydd sy’n adlewyrchu amrywiaeth Cymru, iaith Gymraeg ffyniannus, ein celfyddydau, ein diwylliant a’n treftadaeth.

## Astudiaeth Achos – Y Cyflog Byw Gwirioneddol

57. Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn ymrwymiad allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu, ac mae'n rhan o'n gwaith ehangach i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Bydd darparu cyflog gwell drwy gynyddu cyflog gweithwyr gofal cymdeithasol i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector, yn darparu cymorth yn ystod yr argyfwng costau byw ac yn helpu i recriwtio a chadw gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol.

58. Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a bywoliaethau – dyma'r gwahaniaeth sy'n sicrhau bod gwaith yn talu a bod costau byw yn gallu cael eu talu.

59. Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal a gofal cartref (gwasanaethau i oedolion a phlant) a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth. Yn 2021, amcangyfrifodd adroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol bod 91,000 o bobl yn gweithio ar draws gwaith gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yng Nghymru; mae 81% yn fenywod.

60. Mae costau byw cynyddol a gwahaniaethau mewn cyflogau yn y sector gofal cymdeithasol yn golygu bod cyflogau ac amodau'n ffactorau arwyddocaol o ran recriwtio a chadw staff ym maes gofal cartref a chartrefi gofal. Mae pandemig Covid-19 wedi rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar y sector hwn sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd, ac mae wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cael strategaeth ar gyfer y gweithlu sy'n pontio maes iechyd a gofal cymdeithasol.

61. Mae'r argyfwng o ran recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol hefyd yn cael effaith ar flaenoriaethau allweddol eraill ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r weledigaeth a nodwyd yn ein cynllun hirdymor, *Cymru Iachach*, sef y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach, a hapusach, a medru parhau i gadw'n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, cyhyd â phosibl.

62. Bydd diogelu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn y Gyllideb Ddrafft hon drwy ddyraniad rheolaidd o tua £70m yn cefnogi'r agenda ehangach o waith i wella llif pobl drwy'r system iechyd a gofal, a sicrhau bod modd rhyddhau pobl o'r ysbyty pan fyddant yn ffit yn feddygol.

63. Bydd sicrhau cyflog gwell drwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol hefyd yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel yn y sector gofal cymdeithasol, ac yn helpu i annog recriwtio a chadw staff yn y sector. Mae'n weithlu sy'n cynnwys canran uchel o fenywod, a byddwn yn gweld mwy o effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn. Bydd yn cyfrannu at y cynaliadwyedd a'r uchelgais mwy hirdymor i godi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio, gan wella'r cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu gyrfaoedd.

64. Mae hyn yn sicrhau gwelliannau i'r gweithlu gofal cymdeithasol, ond mae hefyd yn gwella lefelau cadw gweithlu a chanlyniadau ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal a chymorth sydd yn aml y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

65. Rydym yn cydnabod bod y pwysau ariannol ac economaidd gwirioneddol iawn a’r costau cynyddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus a busnesau yn creu heriau i fabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhellach. Rydym yn parhau i weithio gyda chyflogwyr, undebau llafur a'n holl bartneriaid i hyrwyddo ei fanteision.

## Astudiaeth Achos – Y Gronfa Cymorth Dewisol

66. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) wedi bod yn gymorth mewn cyfyngder i bobl yng Nghymru ers bron i 10 mlynedd, gan eu helpu gyda thaliadau arian parod mewn argyfwng a chymorth o fath arall, ar adegau pan fo'r angen mwyaf.

67. Daeth hyn yn amlwg iawn yn ystod pandemig Covid-19, wrth i fwy o bobl ofyn am gymorth gan y DAF nag erioed o'r blaen. Yn 2019-20 cafodd dros 77,000 o bobl gymorth o'r gronfa; yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2021-22, roedd y nifer hwnnw wedi codi i bron 231,000.

68. Mae dwy elfen i'r DAF – y Taliad Cymorth i Unigolion (IAP), sy'n darparu nwyddau gwyn a dodrefn i alluogi pobl i fyw'n annibynnol o fewn eu cymuned, a'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP), sy'n darparu cymorth arian parod brys i bobl sydd mewn argyfwng ariannol, i dalu costau bwyd a thanwydd ar unwaith. Drwy gydol y pandemig a'r argyfwng costau byw, mae'r elfen hon o'r gronfa wedi bod yn hanfodol.

69. Hyd yma, yn 2022-23, mae 173,650 o bobl wedi cael cymorth gan y gronfa, gyda bron i £20m wedi’i ddyfarnu i bobl sydd mewn trafferthion ariannol. Mae mwy na £12m wedi’i wneud mewn taliadau arian parod mewn argyfwng, gan gefnogi 167,813 o bobl gyda chostau byw sylfaenol. Mae tua 50% o'r dyfarniadau yn cael eu gwneud i gartrefi gyda phlant.

70. Mae rhieni sydd heb fwyd gartref nac ynni ar eu mesurydd yn cysylltu â'r DAF yn ystod adegau o galedi, gan wybod bod cymorth ar gael. Mae'r DAF hefyd yn gallu helpu mewn achosion pan fo pobl yn ffoi rhag cam-drin domestig gyda'u plant ac yn cael eu cartrefu mewn llety heb ei ddodrefnu heb unrhyw gymorth ariannol, drwy ddarparu dodrefn a nwyddau gwyn, eitemau cartref, eitemau babanod a chymorth arian parod mewn argyfwng.

71. Gyda'r cynnydd mewn costau ynni, yn enwedig olew domestig ac LPG ar gyfer gwresogi cartrefi, sydd oddi ar y grid, mae'r DAF wedi darparu cymorth ychwanegol i aelwydydd gyda'r costau hyn ers mis Rhagfyr 2020.

72. Wrth i'r argyfwng costau byw barhau i ddyfnhau a safonau byw ostwng, rydym yn disgwyl i'r DAF barhau i ddarparu cymorth hanfodol. Mae papur briffio ar gyflwr Cymru gan Sefydliad Bevan, ym mis Tachwedd 2022, yn rhagweld y bydd gan y teuluoedd sydd ar yr incwm isaf gynnydd o £2,200 y flwyddyn mewn alldaliadau ychwanegol o ran gwariant ar eu haelwydydd yn 2023 o'i gymharu â 2021. Gallai hyn fod cymaint â £7,600 y flwyddyn ar gyfer cwpl â dau blentyn.

73. Bydd y £18.8m ychwanegol a ddyrannwyd i'r DAF yn 2023-24 yn sicrhau bod yr adnodd hanfodol hwn yn parhau i ddarparu cymorth yn ystod yr argyfwng costau byw hwn. Er bod galwadau wedi bod i gynyddu cyllid a darpariaeth ar gyfer DAF, nid yw ein setliad ariannu yn mynd i'r afael â'r holl bwysau cyllidebol a chwyddiant sy'n ein hwynebu. Rydym wedi blaenoriaethu cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth, gan gydnabod pwysigrwydd y DAF fel cymorth brys hanfodol i bobl yn ystod yr argyfwng costau byw hwn, gan hefyd amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen.

# Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am gynlluniau Cyllid Arloesol

## Cynlluniau Cyllid Arloesol

1. Mewn cyllidebau blaenorol rydym wedi nodi'r ystod o gynlluniau cyllid arloesol sydd wedi'u datblygu.

2. Mae cyllid heb ei neilltuo'n dal i gael ei ddosbarthu trwy'r Grant Cynnal Refeniw, ar gyfer dwy o fentrau benthyca Llywodraeth Leol – ar gyfer priffyrdd ac ysgolion. Mae cyllid hefyd yn parhau i gael ei ddyrannu ar gyfer dau gylch o fuddsoddi gan ddefnyddio'r Grant Cyllid Tai.

3. Bydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (CRMP) yn parhau i weld buddsoddiad mewn asedau amddiffyn arfordirol yr awdurdodau lleol i reoli risgiau newid hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr i gymunedau arfordirol ledled Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Dechreuodd y gwaith o adeiladu'r cynllun cyntaf yn 2019-20 ac mae'r gyllideb yn parhau i gario cyllid ar gyfer y rhaglen drosodd hyd at 2024-25. Ar hyn o bryd mae 17 o gynlluniau awdurdodau lleol yn y rhaglen ac, wrth ddyrannu setliad amlflwyddyn, byddwn yn monitro proffil cyflawni'r cynlluniau hyn.

4. Mae tri chynllun yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Mae'r gwaith o adeiladu prosiect deuoli'r A465 ar y gweill a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2025. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru ar adeiladu nifer o ysgolion a cholegau. Mae prosiect Addysg cyntaf y Model Buddsoddi Cydfuddiannol bellach ar y gweill: sef ysgol pob oed yn cael ei chyflwyno ym Mynydd Isa ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint. Mae'r broses o gaffael partner y sector preifat i ddarparu Canolfan Ganser Felindre yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

5. Ni fydd taliadau gwasanaeth am y cynlluniau o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn dechrau nes y bydd yr asedau ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd.

6. Bydd cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn parhau i gael ei ddefnyddio i ariannu cyfranddaliadau'r sector cyhoeddus mewn cynlluniau MIM, gydag ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r costau hyn fel rhan o'n paratoadau ar gyfer Cyllideb Derfynol 2023-24. Caiff y gyfranddaliadaeth hon ei gwerthuso a'i rheoli gan Fanc Datblygu Cymru (DBW) ar ran Gweinidogion Cymru.

7. I gefnogi ein hymrwymiad i dryloywder, cyhoeddwyd yr adroddiad MIM blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf 2022, sy'n disgrifio ein gweithgareddau dros y cyfnod rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mehefin 2022. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, cyhoeddwyd y cytundeb partneriaeth strategol ar gyfer Addysg a chytundeb prosiect yr A465 (gan ddileu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol). Mae'r rhain i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio'r ddolen hon: https://llyw.cymru/y-model-buddsoddi-cydfuddiannol-ar-gyfer-buddsoddi-mewn-seilwaith.

8. Mae cyllid arloesol a chynlluniau MIM yn rhoi hwb y mae ei fawr angen i gyllidebau cyfalaf, gan hwyluso mwy na £2bn o fuddsoddiad seilwaith a sicrhau bod cyfleusterau hanfodol i'r cyhoedd yn cael eu darparu'n gynt nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall. Nodir y rôl y bydd ein cynlluniau cyllid arloesol yn ei chwarae wrth gefnogi'r canlyniadau a sefydlwyd yn Strategaeth newydd Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn y Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf, sydd i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio'r ddolen hon: [https://llyw.cymru/y-cynllun-cyllid-seilwaith-2021](https://llyw.cymru/y-cynllun-cyllid-seilwaith-2021).

# Atodiad C: Cynllun Gwella'r Gyllideb

Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi cyhoeddi diweddariad i'n Cynllun Gwella’r Gyllideb. Cyhoeddwyd y Cynllun hwn gennym gyntaf ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2020-21. Mae’n amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, i wella'r broses gyllidebol sy’n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys y pum ffordd o weithio i sbarduno gwelliant parhaus yn ogystal â gwella'r prosesau hyn i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r diweddariad hwn yn cyflwyno ein huchelgeisiau pum mlynedd treigl, yn ogystal â chrynodeb o'n cynnydd yn erbyn ymrwymiadau arfaethedig o Gynllun y llynedd yn ystod 2022.

Mae'r Cynllun Gwella’r Gyllideb wedi ei gyhoeddi fel dogfen ar wahân ac mae ar gael yn:

https://llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2023-2024

# Atodiad D: Costau gweithredu deddfwriaeth

## Costau gweithredu deddfwriaeth a ddeddfwyd yn 2023-24 a 2024-25

*[Cliciwch ar deitl pob Deddf am wybodaeth gefndirol]*

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Blwyddyn | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 | Cymorth i Deuluoedd a Phlant (1085) | Mawrth 2022 i Mawrth 2027 | 2023-24 | 693,000 | 1,260,000 |
| | | | 2024-25 | 643,000 | 1,080,000 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[5] | Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (0231) | Gorffennaf 2017 i Parhaus | 2023-24 | 20,000 | 352,500 |
| | | | 2024-25 | 26,700 | 44,700 |
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[6] | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (0920) | 2016 i Parhaus | 2023-24 | 599,000 | 0 |
| | | | 2024-25 | 599,000 | 0 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 | Camddefnyddio sylweddau (1682) | 2019-20 i 2023-24 | 2023-24 | 72,340 | 72,340 |
| | | | 2024-25 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 | Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (0233) | 2020 i 2023-24 | 2023-24 | 713,000 | 1,339,000 |
| | | | 2024-25 | Amherthnasol | Amherthnasol |

[5] Mae'r costau cyfle a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u dileu o'r ffigurau amcangyfrifedig, sydd bellach yn dangos costau lle disgwylid llif arian yn unig. Diweddarwyd y costau gwirioneddol a'r swm a neilltuwyd ar gyfer y blynyddoedd a gwmpesir gan y gyllideb hon yn dilyn ailbroffilio yn ystod y cyfnod gweithredu.

[6] Oherwydd y dull graddol a fabwysiadwyd i'w weithredu, mae costau i'r rheoleiddiwr gwasanaeth wedi'u gwasgaru yn hytrach na'u crynhoi yn y flwyddyn gyntaf fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

| Teitl y Ddeddf | Pa BEL sy'n ariannu'r costau? | Cam gweithredu | Blwyddyn | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau (£) | Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg ac Addysg** | | | | | |
| Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[7] | Anghenion Dysgu Ychwanegol (5115) | Medi 2021 i Awst 2024 | 2023-24 | 0 | 14,165,000 |
| | | | 2024-25 | 0 | 13,165,000 |
| Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021[8] | Diwygio'r Cwricwlwm (5167) Cwricwlwm ac Asesu (5162) Cymwysterau Cymru (5166) Datblygiad a Chymorth i Athrawon (4880) | Ebrill 2021 i Medi 2026 | 2023-24 | 20,080,000 i 23,340,000 | 36,596,000 |
| | | | 2024-25 | 19,120,000 i 20,700,000 | 33,136,000 |
| Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022[9] | Diwygio AHO (4775) | Medi 2022 i Awst 2026 | 2023-24 Refeniw | 8,968,000 | 6,000,000 |
| | | | 2024-25 Cyfalaf | 7,162,000 | 3,900,000 |

[7]Bydd y cyfnod gweithredu yn para'n hirach nag a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[8]Mae'r symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 ymlaen yn parhau i gynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau ychwanegol Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau newydd, ynghyd â darpariaeth o £15m ar gyfer Dysgu Proffesiynol ochr yn ochr â llinellau sylfaen cyllideb Diwygio'r Cwricwlwm – yn ogystal â darpariaeth ychwanegol i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr sy'n cael ei dyrannu yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 (£5.33m (2022-23), £5m (2023-24) a £1.66m (2024-25).

[9]Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn cael ei sefydlu erbyn 24 Ebrill fan bellaf, dyma'r pwynt pan fydd swyddogaethau statudol y Comisiwn yn dod i rym, a bydd swyddogaethau presennol CCAUC a Gweinidogion Cymru yn cael eu diddymu. Agwedd graidd ar weithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yw sefydlu'r trefniadau cofrestru a rheoleiddio newydd, o'r herwydd bydd y cyfnod pontio yn para nes bod y trefniadau newydd hyn yn cael eu gweithredu'n llawn.

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

1. Daeth y Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022. Mae'r Ddeddf yn helpu i amddiffyn plant a'u hawliau drwy wahardd defnyddio cosbi corfforol yng Nghymru. Gwna hyn drwy ddiddymu’r amddiffyniad o gosb resymol, a oedd ar gael yn flaenorol i rieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro. Effaith fwriadedig y Ddeddf, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a’r goddefgarwch o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

2. Ar draws ei hystod eang o ddarpariaethau, bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi mesurau amddiffyn pwysig yn eu lle ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys ymestyn y gofynion di-fwg i rai mannau agored penodol, cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer gweithdrefnau arbennig yn ogystal â gwahardd rhoi twll mewn rhannau personol o gyrff unrhyw un dan 18 oed. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio mynd i’r afael â materion pwysig eraill ym maes iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gordewdra a chynllunio toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd.

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

3. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn set o ddarpariaethau sy'n darparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ac wedi’i symleiddio ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

    - diwygio’r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
    - darparu fframwaith rheoleiddio sy’n galw am ddull gweithredu o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
    - diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol;
    - ailsefydlu ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn ehangu ei gylch gorchwyl;
    - diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (2018)

4. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan bobl benodol ac mae'n ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi am bris is na'r pris hwnnw.

5. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:

- y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafswm pris cymwys am alcohol trwy luosi cryfder canran yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned (MUP);
- pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu'r MUP;
- sefydlu trefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol gyda phwerau i ddod ag erlyniadau;
- pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol, trosedd o rwystro swyddog awdurdodedig a'r pŵer i gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig (FPNs).

6. Mae'r Ddeddf yn cynnig y byddai'r MUP yn cael ei bennu yn y rheoliadau. Fodd bynnag, at ddibenion asesu'r effeithiau a'r costau a'r manteision cysylltiedig, mae'r Memorandwm Esboniadol yn defnyddio MUP o 50c fel enghraifft.

### Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

7. Mae'r Ddeddf yn fecanwaith ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan adeiladu ar yr asedau sydd gennym yng Nghymru i gryfhau a diogelu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso llais cryfach gan ddinasyddion, gan wella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu gwell profiad ac ansawdd gofal i bobl yng Nghymru a chyfrannu at wlad iach a ffyniannus. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronnol i boblogaeth Cymru a sefydlu amodau sy'n ffafriol i wella iechyd a lles. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

- rhoi ystyriaethau ansawdd wrth wraidd yr holl gyrff GIG yng Nghymru a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd);
- gosod dyletswydd gonestrwydd ar holl gyrff y GIG ar lefel sefydliadol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o chwith. Mewn perthynas â dyletswydd gonestrwydd diffinnir cyrff y GIG fel byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'i swyddogaethau Cymreig) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â'r gwasanaethau GIG y maent yn eu darparu;
- cryfhau llais dinasyddion ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gysylltu pobl ymhellach â'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iddynt;
- cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG.

## Addysg

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

8. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli’r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol gyda system ddiwygiedig ar sail Anghenion Dysgu Ychwanegol.

9. Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol cyffredinol, statudol ar gyfer yr holl blant a’r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaeth presennol rhwng ymyriadau sy’n cael eu harwain gan yr ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac fe fydd yn integreiddio’r trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy’n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae’r Ddeddf hefyd yn gobeithio gwella cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

### Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

10. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd diwygiedig i helpu i roi’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu newydd ar waith yn rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru.

### Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

11. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, fel y corff rheoleiddio annibynnol sy’n gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Bydd addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac uwch, prentisiaethau a chweched dosbarth.

# Atodiad E: Rhestr o dermau ariannol

### Cam gweithredu
O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA) dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.

### Cwmpasoedd
Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion  Cymru wedi'u hawdurdodi gan Senedd Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).

### Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)
Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae AME, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.  Caiff gwariant Awdurdodau Lleol a gyllidir drwy ardrethi annomestig ei gynnwys mewn cyllidebau AME hefyd.

### Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)
O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru.

### Fformiwla Barnett
Y fformiwla a ddefnyddir gan lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennnir i Lywodraeth Cymru (ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth a'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i osod ar bump y cant yn ychwanegol.

### Cynnig y Gyllideb
Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.

### Cyfalaf
Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.

### Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)
Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.

### Dibrisiant
Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.

### Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru
Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n cael ei gynnwys o fewn cwmpasoedd Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y taliadau a godir yn uniongyrchol mae taliad cydnabyddiaeth y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

### Cyfalaf Trafodiadau Ariannol
Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi.

### DEL Adnoddau Cyllidol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau sydd bron yn arian parod')
Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau.

### Prif Grŵp Gwariant (MEG)
Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir wyth MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Y Gymraeg ac Addysg; Y Newid yn yr Hinsawdd; Yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithasol a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

### DEL Adnoddau Anghyllidol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')
Y gyllideb (DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n sgorio'r gwariant cyfredol mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau o ran benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.

### Derbyniadau
Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu dangos yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

### Cyllidebu adnoddau
Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.

**Adnoddau (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw')**
Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.

**Adolygiad o Wariant**
Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.

**Cylch Gwario**
Mae'r Cylch Gwario yn broses a arweinir gan Drysorlys y DU i ddyrannu adnoddau ar draws holl adrannau'r llywodraeth, yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth. Nid yw'n cynnwys diwygio rhagolygon treth.

**Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)**
Cyfanswm rheoli gan Drysorlys Ei Mawrhydi yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

**Cronfa Wrth Gefn Cymru**
Mae Cronfa wrth Gefn Cymru ar waith ers mis Ebrill 2018 fel arf newydd sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa i gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannnol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa.

**Cronfa Gyfunol Cymru**
Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.

**CNLC**
Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.